Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2017/18

# Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2018

Gweithio dros Gydraddoldeb yng Nghymru

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog 1

Cyflwyniad 2

Rhan 1 – Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb 2017/18 3

Trosolwg 3

Prif gyflawniadau 3

Ymgysylltu 11

Y sylfaen dystiolaeth gydraddoldeb 14

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb 16

Hawliau dynol – ein rhwymedigaethau rhyngwladol 18

Caffael 19

Rhan 2 – Sector cyhoeddus Cymru: cyflawniadau, heriau a'r camau nesaf 21

Trosolwg 21

Cynnydd a phrif gyflawniadau 22

Heriau 27

Gweithredu cydlynus er mwyn gwneud cynnydd pellach 29

Atodiad 1 – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017/18 – y diweddaraf am y cynnydd 33

Atodiad 2 – Ein dyletswyddau cyfreithiol 59



OGL © Hawlfraint y Goron 2019


WG36341

ISBN digidol 978-1-78964-575-0 ISBN argraffu 978-1-78964-576-7

# Rhagair gan y Gweinidog

Yma yng Nghymru mae datganoli wedi'i sylfaenu ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

Yn ystod yr amser hwn o newid gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol nas gwelwyd erioed o'r blaen, mae'n rhaid i gydraddoldeb a hawliau dynol ddal i fod wrth wraidd yr hyn y mae Llywodraeth Cymru a sector cyhoeddus Cymru yn ei wneud i sicrhau bod Cymru'n wlad ffyniannus, deg a chymdeithasol gydlynol.

Drwy greu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae gan bawb y cyfle i gymryd rhan, cyrraedd ei lawn botensial a gallu cyfrannu'n llawn i'r economi, bydd Cymru yn gallu bod yn fwy ffyniannus ac arloesol.

Mae menywod yn wynebu anghydraddoldeb mewn sawl maes, rhywbeth sy'n dwysáu os ydynt hefyd yn rhan o grŵp gwarchodedig arall. Mae menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, LGBT, a menywod oedrannus neu anabl yn aml yn wynebu anfanteision amryfal a gallant ei chael hi hyd yn oed yn anos cyrraedd eu llawn botensial. Bydd yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn rhoi inni weledigaeth a chyfeiriad er mwyn cael cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru.

Mae sefyllfa'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dal i ddod ag ansicrwydd mawr, yn benodol o safbwynt cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae degawdau o fod yn aelod o'r UE wedi esgor ar lu o fanteision i sawl agwedd ar fywyd bob dydd yng Nghymru, er enghraifft hawliau cyflogaeth ac amgylcheddol a rheoliadau iechyd a diogelwch. Rydym yn bwriadu diogelu'r manteision hyn yng Nghymru a byddwn yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i dorri corneli a chreu amodau gwaeth wrth inni adael yr UE.

Mae polisïau diwygio lles Llywodraeth y DU sydd ar waith er 2010 wedi cael effaith anghymesur ar y rhai mwyaf agored i niwed ac rydym wedi gweld mwy o bobl yn dibynnu ar fanciau bwyd a mwy o bobl yn ddigartref, yn unig ac wedi'u hynysu. Mae adroddiad 2018 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach?' yn adrodd am dlodi cynyddol a bod y mesurau llymder yn creu anghydraddoldeb cynyddol mewn amryw o ffyrdd. Roedd y datganiad syfrdanol a wnaed gan Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig dros Dlodi Eithriadol a Hawliau Dynol, yr Athro Philip Alston, yn tynnu sylw'n arbennig at y canlyniadau a'r effeithiau y mae'r newidiadau yn eu cael. Gan dyfynnu'r Athro Alston *"It thus seems patently unjust and contrary to British values that so many people are living in poverty."*

Yr unig ffordd y gallwn ni geisio gwyrdroi'r tuedd hwn yw i Lywodraeth Cymru a sector cyhoeddus, trydydd sector a phartneriaid cymdeithasol Cymru weithio gyda'i gilydd, rhannu adnoddau, gwybodaeth ac arferion gorau i wneud gwahaniaethau go iawn i fywydau'r bobl hynny sydd fwyaf mewn angen.

Mae yna gyfleoedd y gallwn eu harneisio i wneud i hyn ddigwydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i'r sector cyhoeddus ar gyfer y set nesaf o Amcanion Cydraddoldeb er mwyn sicrhau newid diwylliant hirdymor i roi sylw i anghydraddoldebau.

Mewn pedair blynedd y caiff adroddiad nesaf Gweinidogion Cymru ei ryddhau. Rwy'n gobeithio y bydd ein hadroddiad llawn nesaf yn 2022 yn dangos gwir newid.



**Jane Hutt AC**
Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb 2017/18, a hefyd Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2018. Mae'r ddau adroddiad hwn, â'i gilydd, yn cyflawni ein dyletswyddau adrodd statudol y darperir ar eu cyfer gan ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru. Maent yn datgan yr hyn yr ydyn ni a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru wedi'i wneud i ymgorffori gofynion y ddeddfwriaeth gydraddoldeb i'n polisïau a'n harferion, yn benodol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) o dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru o dan Reoliadau 2011 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru), a'r Ddyletswydd Cyfle Cyfartal o dan adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae Rhan Un y ddogfen hon yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb 2017/18. Mae hwn yn gyfle i dynnu sylw at waith Llywodraeth Cymru i greu Cymru sy'n fwy cyfartal rhwng mis Ebrill 2017 a Mawrth 2018. Mae'n amlinellu sut rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth gydraddoldeb i integreiddio cydraddoldeb i'n trefniadau ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon rhaid inni roi ystyriaeth benodol i sut mae ein swyddogaethau'n effeithio ar wahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol ffyrdd, ac mae'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion amrywiol yr holl ddinasyddion sy'n byw yng Nghymru. Yn ogystal â lliniaru effeithiau negyddol posibl ein penderfyniadau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ein hysgogi i ystyried sut gallwn ni wneud cyfraniad positif at hybu cydraddoldeb i bawb.

Mae Rhan Dau yn cyflwyno Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2018. Mae'n rhoi trosolwg ar y cynnydd a wnaeth sector cyhoeddus Cymru at sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r PSED dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hefyd yn amlinellu cynigion ar gyfer cydlynu camau gweithredu pellach gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus Cymreig rhestredig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio i raddau gwell, a hefyd i sicrhau y gweithredir y ddyletswydd yn ystyrlon gan sicrhau canlyniadau positif i bawb sy'n byw yng Nghymru.

Yn Atodiad 1, mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael am y camau a gymerwyd gennym i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb yn 2017/18.

Mae mwy o wybodaeth am y ddeddfwriaeth gydraddoldeb sy'n sail i'r adroddiad hwn i'w gweld yn Atodiad 2.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaeth Llywodraeth Cymru i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle, gan gynnwys ystadegau ar gynrychiolaeth yn y gweithle a chyflogau cyfartal, gweler 'Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Llywodraeth Cymru', sydd i'w weld ar ein gwefan – **https://gov.wales/?lang=cy**.

# Rhan 1 – Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb 2017/18

## Trosolwg

Mae adran hon yr adroddiad yn cael ei chyhoeddi o dan reoliad 16 o Reoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswydd Statudol) (Cymru).

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar y sector cyhoeddus pan mae'n cyflawni ei waith, i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.
- Meithrin perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yw'r enw ar y ddyletswydd hon, ac fe'i gelwir yn 'ddyletswydd gyffredinol' hefyd. Er mwyn i gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru berfformio'n well a dangos eu bod yn cydymffurfio â'r PSED, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu i sefydlu dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru. Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru fel y nodir yn Atodlen 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gael trefniadau ar waith gyda golwg ar sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan roi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.

Mae'r ddyletswydd yn sicrhau ymhellach ein bod yn rhoi pwyslais ar hybu cydraddoldeb.

Mae ein strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' yn ein hymrwymo i greu Cymru sy'n iach ac egnïol, yn ffyniannus a diogel, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. Fe'i crëwyd o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf 2015) ac mae'n datgan ein cyfraniad i gyrraedd y saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Cymru o gymunedau cydlynus'. Mae Deddf 2015 yn cydnabod y rôl y gall cyrff cyhoeddus yng Nghymru ei chwarae i gryfhau'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r PSED drwy wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r hyn a wnaethom i gyflawni ein cyfrifoldebau cydraddoldeb, fel y'u gwelir yn y ddeddfwriaeth a ddisgrifir uchod ac mewn mwy o fanylder yn Atodiad 1.

## Prif gyflawniadau

Cyrhaeddwyd nifer o gerrig milltir yn ystod 2017/18 gan ddangos sut yr ydym wedi cyflawni'r PSED a'n dyletswydd cyfle cyfartal y darperir ar ei chyfer gan adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym wedi amlinellu rhai ohonynt isod:

**Mae'r rhaglen ariannu Cydraddoldeb a Chynhwysiant**, yn darparu cefnogaeth fwy strategol a chynhwysfawr i sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Drwy weithio'n gydweithredol â'n partneriaid, rhoddwyd cefnogaeth i unigolion a chymunedau ledled Cymru drwy gyllido mudiadau sy'n gweithio

ym meysydd y rhywiau (WEN Cymru); anabledd (Anabledd Cymru); Sipsiwn, Roma a Theithwyr (TGP Cymru); ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Cyngor Ffoaduriaid Cymru); tueddfryd rhywiol a hunaniaeth ryw (Stonewall Cymru); hil (EYST) a throseddau casineb (Cymorth i Ddioddefwyr Cymru).

Mae cyfanswm gwerth y cyllid yn £3.9 miliwn dros dair blynedd. Yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect, fe wnaeth pob sefydliad wario ei ddyraniad llawn o'r cyllid (£1.34 miliwn) a chyflawni'r amcanion y cytunasant arnynt yn llwyddiannus.

## Rhaglen Hawliau Lloches

Ym mis Ebrill 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu'r Rhaglen Hawliau Lloches, sy'n gonsortiwm o saith o sefydliadau cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, i ddarparu cyngor, eiriolaeth a chefnogaeth i bobl sy'n ceisio noddfa.

### Nodau – Hybu cyfle cyfartal.
### – Meithrin perthnasoedd da.

Mae i'r Rhaglen Hawliau Lloches yr elfennau canlynol:

Gweithwyr achos yn rhoi cyngor ar loches wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam drwy gyfrwng Cyngor Ffoaduriaid Cymru, EYST a BAWSO. Mae'r gweithwyr achos hyn yn rhoi cyngor ar y gefnogaeth sydd ar gael i geiswyr lloches, yn ogystal â chyngor ar dai, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, cyllid, bwlio, troseddau casineb, gwahaniaethu a thlodi.

- Cefnogaeth eiriolaeth arbenigol i blant a phobl ifanc yn y broses ceisio lloches, a ddarperir gan Tros Gynnal Plant (a elwir yn TGP Cymru nawr).
- Cyngor cyfreithiol a ddarperir gan Asylum Justice drwy sesiynau galw i mewn yng Nghaerdydd ac Abertawe, gydag allgymorth yn cael ei ddarparu i ardaloedd eraill drwy wasanaethau rhyngrwyd.
- Fforymau Eiriolaeth er mwyn i geiswyr lloches gael cyfle i godi materion sy'n peri pryder iddynt hwy a thrafod y rhain â darparwyr gwasanaethau.
- Hyfforddiant a gweithdai ynglŷn â Chaethwasiaeth Fodern ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a ddarperir gan BAWSO.
- Sefydlu timau 'Lleisiau Noddfa', gan alluogi pobl sy'n ceisio noddfa i adrodd eu hanesion eu hunain wrth gynulleidfaoedd cyhoeddus, darparwyr gwasanaethau a'r cyfryngau yng Nghymru.

Yn y flwyddyn gyntaf (hyd at 31 Mawrth 2018), roedd y Rhaglen Hawliau Lloches wedi darparu cyngor ar loches drwy waith achosion i oddeutu 1,294 o bobl. Roedd oddeutu 35 o blant a phobl ifanc wedi cael cefnogaeth eiriolaeth arbenigol, ac roedd oddeutu 224 o unigolion wedi cael cyngor cyfreithiol.

Mae'r prosiect hwn wedi helpu llawer o bobl sy'n ceisio noddfa i sicrhau eu hawliau a'u haeddiant i'w helpu i integreiddio i'r gymdeithas Gymreig.

## Gwella'r Canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal

Fe wnaethom ddal i weithredu fel bod plant sy'n derbyn gofal yn cael yr un siawns mewn bywyd â phlant eraill, sy'n un o'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen' sy'n cael ei ategu yn y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb'.

### Nod – Hybu cyfle cyfartal.

Nod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant yw:

- Gostwng yn ddiogel nifer y plant mewn gofal;
- Gwella'r canlyniadau i blant sydd eisoes yn y system gofal; a
- Chefnogi'r rheini sy'n gadael gofal wrth iddynt ddod yn oedolion ac i gael dyfodol llwyddiannus.

Bu Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn bwrw ymlaen raglen waith eang a buont yn llunio cynllun hirdymor i wella'r canlyniadau i blant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal.

Yn 2017/18, darparodd Llywodraeth Cymru £8 miliwn yn ychwanegol o gyllid cylchol i awdurdodau lleol i helpu plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal; cafodd hwn ei integreiddio i raglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

Caiff y cyllid ychwanegol hwn ei ddefnyddio i gefnogi'r gweithgaredd canlynol:

- £5 miliwn i ehangu gwasanaethau ar ffiniau gofal awdurdodau lleol.
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 filiwn ar gyfer pobl sy'n gadael gofal i gefnogi eu haddysg, eu hyfforddiant a'u lles.
- £850,000 i gyflwyno'r prosiect Adlewyrchu, i gefnogi mamau y mae un neu ragor o'u plant wedi cael eu symud i'r system ofal i atal digwyddiadau pellach, ar draws y saith rhanbarth yng Nghymru.
- £400,000 i weithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- £125,000 i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol o roi cefnogaeth ar gyfer mabwysiadu.

I bobl sy'n gadael gofal, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio arian fel a ganlyn:

- £625,000 i sicrhau bod gan eu rhaglenni hyfforddiant a'u lleoliadau gwaith ffocws ar bobl sy'n gadael gofal.
- £1 filiwn i ymestyn y ddarpariaeth cynghorwyr personol i bobl sy'n gadael gofal o 21 i 25 oed.

Mae'r pum egwyddor yn fframwaith Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer cyrff cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol, i weithredu hawliau plant yng Nghymru yn cael eu gweithredu yn rhaglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant fel a ganlyn:

**Plannu Hawliau Plant** – Mae hon yn rhan annatod o'r rhaglen waith Gwella Canlyniadau i Blant, ac fe'i cynhwysir mewn dogfennau a negeseuon allanol. Mae hwn yn osgoi dull gweithredu 'diffyg' wrth drafod plant sy'n derbyn gofal ac mae'n tanlinellu eu hawliau i gael cymorth i gyflawni eu potensial.

**Cydraddoldeb a Dim Gwahaniaethu** – Mae plant o bob cefndir yn rhannu'r un hawliau dynol. Mae'n ddyletswydd ar bawb sy'n gweithio â Grŵp Cynghori'r Gweinidog sicrhau y deallir ac y rhoddir ystyriaeth i effaith bosibl y rhaglen waith ar yr anghydraddoldebau sy'n cael eu hachosi gan dlodi, iaith, hil neu dreftadaeth ddiwylliannol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a rhywioldeb.

**Grymuso** – Ni all plant a phobl ifanc sicrhau eu hawliau heb wybodaeth, sgiliau a chyfleoedd. Bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn rhyddhau gwybodaeth hygyrch am y rhaglen waith i blant a phobl ifanc perthnasol ac yn darparu cyfleoedd iddynt gyfranogi yn y rhaglen.

**Cyfranogi** – Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi yng nghyfeiriad strategol y rhaglen, cyfranogi yn y broses o'i gweithredu ar lefel leol yn ogystal â rhoi adborth ar effaith y rhaglen, yn rhannol drwy gyfrwng arolygon a fforymau i blant sy'n derbyn gofal.

**Atebolrwydd** – Bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn ymdrechu i fod yn atebol i blant a phobl ifanc drwy lunio adroddiadau tryloyw a hygyrch ar ei nodau, ar y rhaglen, ar ei benderfyniadau ariannu ac ar ei lwyddiant a'i gyfyngiadau wrth gyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Fe wnaethom sefydlu **Cynllun Cyfathrebu** newydd mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol i hybu negeseuon positif am hawliau dynol a chydraddoldeb yng Nghymru.

Fe wnaethom ddechrau dathliadau ar gyfer **canmlwyddiant hawliau pleidleisio rhannol menywod** (a fydd yn parhau gydol 2018).

## Cronfa Gofal Canolraddol

Fe wnaethom ddal ati i weithredu'r Gronfa Gofal Canolraddol i helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain, gan osgoi eu derbyn i'r ysbyty neu i ofal preswyl yn ddiangen ac osgoi oedi pan fydd rhywun yn barod i gael ei ryddhau o ofal.

### Nod – Hybu cyfle cyfartal

Caiff y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) ei gweinyddu gan y saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Mae'r byrddau iechyd a'u partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i helpu:

- pobl hŷn a phobl fregus;
- pobl ag anabledd dysgu;
- plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch; a
- gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Defnyddiwyd yr ICF i ddatblygu ystod eang o fodelau gweithio integredig, arloesol. Ymysg y rhain y mae atebion atal ac ail-alluogi, pwyntiau mynediad sengl, gwelliannau mewn tele-ofal a thai, timau ymateb brys, gofal dementia a chefnogaeth gwaith cymdeithasol saith diwrnod yr wythnos.

## Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol

Fe wnaeth Prif Weinidog Cymru lansio'r Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol. Mae'r adolygiad wedi dechrau sgwrs genedlaethol ar wneud Cymru yn arweinydd byd ar gydraddoldeb rhywiol drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

**Nodau – Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.**
**– Hybu cyfle cyfartal.**

Ar 8 Mawrth 2018, Diwrnod Rhyngwladol Menywod, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol dan ofal Arweinydd y Tŷ a gyda chefnogaeth yr elusen Chwarae Teg.

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar sut caiff polisi Llywodraeth Cymru ei bennu, sut gwneir penderfyniadau, y ffyrdd o weithio ar draws y Llywodraeth, a mapiau o'r fframweithiau deddfwriaethol a'r polisïau presennol sy'n rhoi sylw i gydraddoldeb rhywiol. Mae hefyd yn archwilio esiamplau gan Lywodraethau ym mhob cwr o'r byd er mwyn inni allu dysgu oddi wrth eu modelau a'u harferion hwy.

Fel rhan o'r dull gweithredu rydym yn gweithio ar draws gwahanol elfennau cydraddoldeb, gan gynnwys hil, anabledd ac oedran, gyda'r nod o sicrhau na chaiff neb ei adael ar ôl. Rydym yn cydnabod bod menywod a merched sy'n wynebu amryfal ffurfiau ar wahaniaethu sy'n gorgyffwrdd yn aml yn cael eu hallgau o unrhyw gynnydd.

Bydd yr adolygiad yn darparu trywydd ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, a bydd y gwaith yn parhau y tu hwnt i ddiwedd y prosiect i sicrhau bod y camau iawn yn cael eu cymryd i gyrraedd y nod hwn.

Ar 16 Mai 2017, fe wnaeth Prif Weinidog Cymru ar y pryd gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu diffiniad dros dro Cynghrair Genedlaethol Cofio'r Holocaust (IHRA) o **wrth-Semitiaeth**. Yn ei ddatganiad, dywedodd Prif Weinidog Cymru yn glir na fydd gwrth-semitiaeth mewn unrhyw fodd yn cael ei oddef.

Yn dilyn y datganiad hwn, trefnodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant i'w staff ynglŷn â gwrth-Semitiaeth, yn bennaf i bobl sydd mewn swyddi yn ymwneud â chydraddoldeb a chydlyniant cymunedol. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddiffiniad y Gynghrair o wrth-Semitiaeth, ac roedd yn cynnwys edrych ar yr unarddeg o enghreifftiau sy'n gysylltiedig â'r diffiniad er mwyn cynorthwyo i ddeall a chydnabod gwrth-Semitiaeth heddiw.

## Cydlynwyr Cydlyniant Cymunedol

Fe wnaethom barhau i ariannu'r tîm o Gydlynwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ledled Cymru.

**Nodau – Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.**
**– Meithrin perthnasoedd da.**

Mae wyth o Gydlynwyr Cydlyniant Cymunedol yn gweithio ar draws y 22 awdurdod lleol i gyflawni pedwar amcan y rhaglen cydlyniant cymunedol. Mae'r dull hwn yn cwmpasu Cymru gyfan er mwyn helpu i gyflenwi'r rhaglen yn genedlaethol.

1. Gweithio ar lefel strategol i chwalu'r rhwystrau sy'n atal grwpiau sydd ar y cyrion rhag cael eu cynnwys a'u hintegreiddio:

   Bu'r cydlynwyr yn helpu i wreiddio ystyriaethau cydlyniant cymunedol yng Nghynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Lleol, ac yn meithrin cysylltiadau rhwng ymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant.

2. Gweithio ar lefel leol i chwalu'r rhwystrau sy'n atal grwpiau a chymunedau penodol rhag cael eu cynnwys a'u hintegreiddio:

   Bu'r cydlynwyr yn gweithio ag ystod eang o grwpiau sydd mewn perygl o ddiffyg cynhwysiant neu gydlyniant, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

3. Helpu ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ystod y broses integreiddio:

   Bu'r cydlynwyr yn cefnogi eu hawdurdodau lleol i brif ffrydio cefnogaeth i ffoaduriaid gan gynnwys y rhai dan y rhaglen Adsefydlu Syriaid ac yn gweithio â chymunedau sefydlog sy'n mynegi pryderon neu elyniaeth at ymfudwyr.

4. Mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tensiynau ac eithafiaeth:

   Mae'r cydlynwyr yn gweithio mewn partneriaeth â thimau diogelwch cymunedol lleol a'r heddlu i fonitro ac ymateb i densiynau cymunedol, a buont yn helpu i brif ffrydio gweithgaredd i fynd i'r afael â throseddau casineb, caethwasiaeth fodern a gweithgaredd i atal pobl rhag cael eu radicaleiddio.

Darparom £700,000 o gyllid cyfalaf i awdurdodau lleol ledled Cymru i helpu i fynd i'r afael â **ag urddas mislif** drwy wella cyfleusterau ac offer mewn ysgolion.

## Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb

Cefnogom Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb drwy gyfrwng cyllid a ddarparwyd i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar draws Cymru.

**Nodau – Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.**
**– Hybu cyfle cyfartal.**

Cynhelir y gwasanaeth cymorth Cymru gyfan gan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru dan raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi cymorth cynhwysfawr a chyfrinachol i ddioddefwyr, gan gynnwys cymorth i gryfhau'n emosiynol, cyngor ar fod yn ddiogel ac offer diogelwch, eiriolaeth, a chyswllt â'r heddlu ynglŷn â hynt eu hachos. Bu'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ardderchog.

Mae'r gwasanaeth yn elwa o weithio'n agos mewn partneriaeth â'r pedwar heddlu yng Nghymru a gyda Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru, y mae ei aelodau'n cynnwys y pedwar Heddlu a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, cyrff y trydydd sector a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae gwaith y bartneriaeth ehangach, yn enwedig yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, wedi gwella llawer iawn ar hyder y cyhoedd i adrodd am droseddau casineb er mwyn ceisio cefnogaeth a chyfiawnder. Mae'r adroddiadau am droseddau casineb yng Nghymru wedi dyblu bron er 2012/13, i 3,370 yn 2017/18.

## Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru

Fe wnaethom ddefnyddio ein Cronfa Strwythurol Ewropeaidd (ESF) i gyfrannu at y themâu trawsbynciol sef prif ffrydio'r rhywiau a chyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy, a threchu tlodi ac allgau cymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys Rhaglen STEM Cymru II a Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru.

**Nod – Hybu cyfle cyfartal.**

Mae Gwasanaethau Ariannol yn un o'r sectorau allweddol yn Ne-ddwyrain Cymru, gydag amrywiaeth cynyddol o gyflogwyr mawr arweiniol a llai yn cynnig gyrfaoedd o ansawdd i raddedigion. Mae Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru a ariennir gan yr UE yn cymryd camau i sicrhau bod graddedigion o bob rhan o'r gymuned, gan gynnwys grwpiau gwarchodedig, yn cael eu hannog i ymgeisio am y rhaglen. Nod y rhaglen yw paratoi'r graddedigion hyn i ddod o hyd i swyddi parhaol a chychwyn gyrfa werth chweil yn y sector a, drwy hynny, cadw graddedigion dawnus yng Nghymru.

Cymeradwywyd y prosiect gyda thargedau estynedig i dros 40% o'r cyfranogwyr fod yn fenywod, targedau ar gyfer grwpiau gwarchodedig eraill, yn ogystal â tharged i drechu tlodi drwy recriwtio 40% o gyfranogwyr o gymunedau difreintiedig.

Hyd at ddiwedd 2017/18, roedd 43% o'r graddedigion ar y rhaglen yn fenywod. Ar gyfer yr ail gylch o raddedigion yn 2017, rhoddodd y prosiect ffocws penodol ar hyrwyddo'r rhaglen ar draws cymunedau, daeth 30% o'r ceisiadau oddi wrth raddedigion a oedd yn cyfrif eu hunain yn Ddu, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig (BAME).

Mae'r ffigurau camu ymlaen o'r rhaglen i yrfa yn y sector yn hynod o dda, gyda dros 90% o'r graddedigion sy'n cwblhau'r rhaglen hyd yma yn cael swydd barhaol.

# Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol

Bu nifer o ddatblygiadau sy'n effeithio ar bobl anabl yng Nghymru ers cyhoeddi ein Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Anabledd yn 2013, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio â phobl anabl o bob oed, i herio rhagdybiaethau negyddol ac i chwalu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyfranogi'n llawn mewn cymdeithas.

### Nodau – Gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth.
### – Hbu cyfle cyfartal.

Yn ystod 2017/18, buom yn cydweithio'n glos â'n rhanddeiliaid anabledd i ddiweddaru a gwella Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn i'w gweld ar dudalen 13.

Diben y fframwaith diwygiedig, a elwir yn **'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol'** yw adeiladu ar ei ragflaenydd a helpu i sicrhau rhagor o welliannau o ran mynediad at gymorth, cyngor a gwasanaethau i bobl anabl yng Nghymru. Sail y fframwaith cyfan yw'r "Model Cymdeithasol o Anabledd", yr ymagwedd sy'n cydnabod yr angen drawsnewid cymdeithas, chwalu rhwystrau fel y bydd modd i bobl anabl gyfranogi'n llawn.

Mae'r fframwaith newydd yn cael ei ategu hefyd gan ein rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). Mae'r UNCRPD yn gytuniad rhyngwladol sy'n hyrwyddo, yn gwarchod ac yn sicrhau bod pobl anabl yn mwynhau hawliau dynol llawn a chyfartal. Mae erthyglau'r Confensiwn yn ymdrin ag ystod eang o feysydd gan gynnwys hygyrchedd, byw'n annibynnol, addysg, iechyd, a gwaith a chyflogaeth. Cyfeirir ar y Confensiwn yn aml yn y DU, a chan Lywodraeth Cymru, fel "Confensiwn y CE ar Hawliau Pobl Anabl" (UNCRDP), sy'n adlewyrchu'r termau a ffefrir gan lawer o bobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Yn 2017/18 cyflawnwyd y canlynol hefyd:

- Roedd y rhaglen **Cymunedau am Waith** (**llyw.cymru/adfywio**) yn cynnig cymorth un i un wedi'i deilwra i unigolion drwy system frysbennu, lle mae cynghorwyr, mentoriaid a phartneriaid perthnasol eraill yn cydweithio i helpu'r unigolyn hwnnw i gael gwaith.

  Erbyn diwedd mis Mawrth 2018, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu â chyfanswm o 14,016 o bobl (5,810 yn ystod 2017/18) ac o blith y rhain roedd gan 3,741 gyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio ac roedd o leiaf 1,659 yn bobl anabl. Roedd y rhaglen wedi helpu 2,164 o bobl i gael gwaith yn ystod y cyfnod.
- Cychwynnodd y rhaglen **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)** ym mis Gorffennaf 2015. Erbyn diwedd mis Mawrth 2018, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu â 2,883 o bobl, ac o'u plith roedd gan 349 gyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio ac roedd 177 yn bobl anabl. Mae'r rhaglen wedi helpu cyfanswm o bron i 900 o unigolion i gael gwaith.
- Disgwylir y bydd y system **Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn weithredol ym mis Medi 2020. Tan hynny rydym yn parhau i weithio â phartneriaid i ddatblygu a gwella ffyrdd o weithio i helpu i gyflawni'r diwygiadau. Roedd hyn

yn cynnwys rhoi prawf ar ddulliau cyflawni arloesol a oedd yn defnyddio cyllid grant arloesol; a gweithio â'n Grŵp Gweithredu Strategol i ffurfio a mireinio sut y byddai'r Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Rydym wedi myfyrio ar y gwaith hwn fel rhan o gynhyrchu a mireinio ein Cod ADY ac is-ddeddfwriaeth. Nod y pecyn cyfan o weithgarwch o fewn y Rhaglen Drawsnewid ADY yw sicrhau bod dysgwyr yn cael help i oresgyn rhwystrau ac i gyflawni eu llawn botensial, ac i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY.

## Ymgysylltu

Rhaid i'n polisïau a'n penderfyniadau gael eu llywio gan y rheini y maent yn effeithio fwyaf arnynt. Mae hyn yn cynnwys wrth gyflawni dyletswyddau o dan Reoliadau 2011, yr angen i gynnwys y rheini sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, ac o dan Ddeddf 2015 yr angen i weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), sy'n cynnwys pwysigrwydd cynnwys eraill i adlewyrchu'r amrywiaeth ym mhoblogaeth Cymru.

Mae ymgysylltu ag arbenigwyr, grwpiau cydraddoldeb, unigolion a chymunedau yn darparu inni gefnogaeth i'n helpu i ddeall anghenion, pryderon, rhwystrau a phrofiadau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'n un o ofynion sylfaenol dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru.

### Rhaglen Ymgysylltu BAME

**Astudiaeth achos**

**Nodau – Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.**
**– Hybu cyfle cyfartal.**
**– Meithrin perthnasoedd da.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu EYST i gyflenwi Rhaglen Ymgysylltu BAME Cymru Gyfan yn 2017-20, fel rhan o'n rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Mae EYST yn ymgysylltu â chymunedau BAME ar draws Cymru i gasglu eu barn a'u profiadau o'r prif faterion sy'n effeithio ar eu cymunedau, a syniadau am atebion posibl. Y nod yw y bydd y dystiolaeth a gesglir yn bwydo'r gwaith o lunio polisïau i'r dyfodol er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ac yn ymateb yn well i anghenion cymunedau BAME, i gefnogi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

I gasglu'r dystiolaeth hon, mae EYST yn cyflogi swyddogion rhanbarthol i ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau, yn cynnal fforymau rhanbarthol rheolaidd, ac yn cynnal cynhadledd flynyddol.

Yn ystod 2017/18, dewisodd y prosiect bedair blaenoriaeth weithredu i drechu anghydraddoldeb hiliol, dan bedair thema:

1. Hiliaeth ac Islamoffobia
2. Anghydraddoldeb hiliol mewn ysgolion
3. Anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol a chyflogaeth
4. Cynrychiolaeth ymysg arweinyddion a'r bywyd cyhoeddus.

Mae'r prosiect yn rhoi i Lywodraeth Cymru ymgysylltiad dwyffordd gwerthfawr dros ben.

Caiff adroddiad ffurfiol terfynol ar y prosiect ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru eu cyflwyno ar ddiwedd y prosiect yn 2020.

Mae'r adborth a'r cyngor a gawn yn hollbwysig i gael gwybodaeth ddigonol i'n galluogi i asesu effaith bosibl ein penderfyniadau neu ein polisïau arfaethedig ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, neu ar y rheini nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg neu sydd dan anfantais mewn ffordd arall. Mae rhagor o wybodaeth am ein dull o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w gweld ymhellach ymlaen yn y bennod hon.

## Gwlad Noddfa

### Astudiaeth achos

**Nodau – Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.**
**– Hybu cyfle cyfartal.**
**– Meithrin perthnasoedd da.**

Rydym wedi ymrwymo i Gymru weithio i fod yn Wlad Noddfa ac rydym wedi gweithio â sefydliadau rhanddeiliaid i lunio Cynllun Gwlad Noddfa ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad ymchwiliad i gefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru o'r enw, 'Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun'. Ymrwymom i ymateb yn llawn i argymhellion yr adroddiad drwy ail-lunio ein cynllun cyflawni ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches a mesurau eraill.

Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, buom yn gweithio gyda phobl a oedd yn ceisio noddfa, gyda Chynghrair Ffoaduriaid Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyd-gynhyrchu Cynllun Gwlad Noddfa er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi sylw i'w hanghenion, cyn cael ei gyhoeddi fel ymgynghoriad ehangach yn 2018. Trefnwyd gweithdai Llywodraeth Cymru yn y pedair ardal wasgaru ar gyfer lloches yng Nghymru i drafod y blaenoriaethau a'r camau gweithredu y gofynnodd dros 120 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu hunain amdanynt. Bu'r swyddogion hefyd yn gweithio'n agos gyda City of Sanctuary a Chynghrair Ffoaduriaid Cymru drwy gydol yr amser hwn i sicrhau bod pawb yn gytûn ar y ffordd arfaethedig ymlaen. Mae'r rhanddeiliaid wedi croesawu'r cynllun drafft a'n dull cydweithredol o weithio. Mae'r cynllun yn gweithredu'n fwy rhagweithiol i sicrhau ein bod yn cyrraedd nodau'r PSED ac adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Disgwylir i'r Cynllun Gwlad Noddfa terfynol gael ei gyhoeddi tua diwedd 2018/19 a bydd yn crisialu ein hymrwymiadau i wella canlyniadau i bobl sy'n ceisio noddfa.

Gydol y flwyddyn mae Gweinidogion Cymru wedi ymgysylltu'n rheolaidd mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd â grwpiau sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, er mwyn deall eu blaenoriaethau a'r heriau a wynebant yn ddyddiol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu fforymau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Dyma rai ohonynt:

- Y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl
- Y Fforwm Cymunedau Ffydd
- Fforwm Hil Cymru
- Y Bwrdd Cydraddoldeb Strategol
- Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb.

## Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol

### Astudiaeth achos

**Nod – Hybu cyfle cyfartal.**

Mae Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2013, yn disgrifio sut roeddem yn ymdrechu i roi sylw i'r rhwystrau cymdeithasol rhag cydraddoldeb a chynhwysiant fel bod pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd â phawb arall. Roedd ynddo flaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu, a ddewiswyd gan bobl anabl; gan gynnwys trafnidiaeth, tai, mynediad i adeiladau a llefydd, a chyflogaeth.

Yn ystod 2017/2018 fe wnaethom gynnal cyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu â phobl anabl, sefydliadau anabledd a rhanddeiliaid allweddol eraill i adolygu'r fframwaith gwreiddiol ac ystyried ffordd ymlaen. Y nod oedd canfod a oedd pethau wedi gwella er 2013 ac a oedd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu yr un fath. Cyhoeddwyd arolwg ar-lein i gasglu barn pobl anabl a sefydliadau ar draws Cymru. Fe wnaethom hefyd sefydlu grŵp llywio a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid anabledd i oruchwylio'r adolygiad a bwydo i mewn farn eu haelodau a'u rhwydweithiau.

Darparodd y broses hon y sail ar gyfer llunio ein fframwaith newydd, o'r enw 'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol'. I gyd-fynd â'r fframwaith, gwnaed cynllun gweithredu sy'n cynnwys ystod eang o gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar draws Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau allweddol a nodwyd gan bobl anabl eu hunain.

Disgwyliwn i'r fersiwn derfynol o'r Fframwaith gael ei chyhoeddi yn ystod gwanwyn 2019, ar ôl cynnal ymgynghoriad pellach yn ystod hydref/gaeaf 2018.

## Y Sylfaen Dystiolaeth Gydraddoldeb

Er mwyn rhoi ystyriaeth iawn i'r nodau a ddisgrifir yn y ddyletswydd gyffredinol, mae angen inni gael tystiolaeth ddigonol o'r effaith y mae ein polisïau a'n harferion yn ei chael, neu'n debygol o'i chael, ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Yn 2017/18, cyhoeddom yr allbynnau ystadegol canlynol, a wnaeth helpu i'n hysbysu o'r effaith y mae ein polisïau yn ei chael, a lle mae angen inni wneud mwy. Maent hefyd yn galluogi i'n rhanddeiliaid gael gwybod lle mae gofyn gwneud mwy o gynnydd a'n dwyn i gyfrif:

- Adroddiad Llesiant Cymru
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol
- Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion 2017
- Absenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion
- Canlyniadau cyfrifiad ysgolion
- Tablau StatsWales ar Addysg Bellach, gan gynnwys Oedran, Rhyw ac Anabledd
- Mesurau Deilliannau Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach, Dysgu seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned 2016/17
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Ystadegau Addysg Uwch
- Tablau StatsWales gyda data ar elfennau cydraddoldeb (e.e. data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)
- Arolwg Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd ac iechyd cysylltiedig â ffyrdd o fyw yr adroddwyd arnynt fel rhan o Arolwg Iechyd Cymru)
- Ystadegau tlodi i Gymru (a gynhyrchwyd o'r set ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog)
- Ystadegau ar hunaniaeth rywiol
- Oedolion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth
- Plant sy'n derbyn gofal a chefnogaeth
- Ystadegau Iechyd Cymru
- Mynediad i feddygon teulu
- Offer mapio ystadegau iechyd a gofal Cymru
- Darpariaeth tai fforddiadwy
- Tablau StatsWales ar Ddigartrefedd
- Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru
- Twf Swyddi Cymru.

Yn 2017/18, defnyddiwyd y wybodaeth hon, ynghyd ag arweiniad pellach gan ein timau ystadegol, i lywio ein Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ein cyngor i Weinidogion ynglŷn â pholisïau newydd arfaethedig neu newidiadau i bolisïau, ac ar gyfer cyfraniadau i sesiynau ymchwiliad y pwyllgor.

Er mwyn gwella ein gwybodaeth am gydraddoldeb gwnaethom y canlynol yn 2017/18:

### Yr Adolygiad o Dystiolaeth ar Anghydraddoldeb yng Nghymru

Dechreuon weithio i ddiweddaru'r adroddiad ar yr 'Adolygiad o'r Dystiolaeth ar Anghydraddoldeb yng Nghymru 2016', y byddwn yn ei gyhoeddi yn 2019. Fe wnaethom hefyd adolygu sut gallwn wella'r modd y caiff ein data cydraddoldeb cyhoeddedig ei gasglu a'i rannu â defnyddwyr. Er enghraifft, fe wnaethom archwilio sut gallem sicrhau bod y tablau atodol o'r adroddiad nesaf ar yr 'Adolygiad o Dystiolaeth o Anghydraddoldeb yng Nghymru' yn cael eu cynnal a'u diweddaru'n amlach. Rydym yn bwriadu gweithredu rhai o'r gwelliannau hyn i gyd-fynd ag adeg rhyddhau'r adroddiad nesaf. Fe wnaethom hefyd ystyried ffyrdd eraill o gyhoeddi'r adroddiad fel ei fod yn fwy hygyrch ac addas i anghenion gwahanol ddarllenwyr.

## Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant – monitro perfformiad

Fe wnaethom gymryd camau i wella ansawdd y data monitro perfformiad a gasglwyd gan y sefydliadau a ariennir gan Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru. Cyfarfuom â phob sefydliad yn unigol i'w cynorthwyo i ddatblygu mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys sefydliadau yn casglu gwybodaeth am ganran yr unigolion sydd, yn dilyn y cyngor a'r gefnogaeth a gawsant, yn gwybod mwy am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt; ac sy'n teimlo bod eu lleisiau yn fwy tebygol o gael gwrandawiad.

Law yn llaw â dangos ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliadau a ariennir gan y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant, bydd y darn hwn o waith yn gwella'r corff tystiolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru am grwpiau o unigolion â nodweddion gwarchodedig.

## Adroddiad Llesiant Cymru 2017/18

Mae'r adroddiad 'Llesiant Cymru 2017/18' yn rhoi diweddariad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y saith nod llesiant fel y nodir yn adran 4 o Ddeddf 2015. Mae'n cynnwys pennod ar 'Cymru sy'n fwy cyfartal', sy'n cynnwys crynodeb o'r ystadegau cydraddoldeb diweddaraf sy'n berthnasol i Gymru.

## Data ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI)

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) ar ei thudalennau tlodi ar StatsWales. Mae hyn yn cynnwys ffigurau wedi'u haenu ar sail a oes anabledd yn y teulu (diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010) ac ethnigrwydd y penteulu, gyda'r ystadegau ar gael ar gyfer plant, pensiynwyr ac oedolion oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol. Yn ogystal, darperir y ffigurau sy'n berthnasol i blant ac oedolion oedran gweithio ynghyd â dadansoddiad yn ôl oedran y plentyn ieuengaf yn y teulu, tra gellir gweld ffigurau pensiynwyr wedi'u haenu yn ôl oedran y penteulu.

Mae effeithiolrwydd ein trefniadau ar gyfer canfod a chasglu gwybodaeth am gydraddoldeb yn amrywio ac rydym eisiau gwella'r trefniadau hyn lle bo hynny'n ymarferol ac yn gost-effeithiol.

Dyma rai o'r rhesymau pam nad yw gwybodaeth am gydraddoldeb gennym er ein bod yn credu ei bod yn berthnasol:

- Cost cynnal arolygon sampl graddfa fawr o ansawdd pan allai'r is-grŵp poblogaeth fod yn fach iawn.
- Anhawster dewis cwestiynau priodol y gall pawb eu deall, neu y bydd rhai pobl yn amharod i'w hateb.
- Yn hanesyddol, cyfyngedig fu'r dystiolaeth o nodweddion gwarchodedig penodol.
- Cwynion neu sylw negyddol gan y wasg o bosibl pe byddem yn holi ynglŷn â rhai testunau sensitif.

Mae ein cynlluniau i wella ein sylfaen dystiolaeth ar gydraddoldeb i'r dyfodol yn cynnwys:

## Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol

Ar hyn o bryd, nid yw'r adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol yn cynnwys tystiolaeth o gydraddoldeb; er hynny, gan ei fod yn adroddiad byw gallwn gynnwys data/gwybodaeth berthnasol pan fydd ar gael. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio i ganfod pa dystiolaeth o gydraddoldeb y gellir ei chynnwys yn yr adroddiad.

## Data wedi'i ddadgyfuno sydd ar gael

Byddwn yn pwyso a mesur dewisiadau i wella'r data wedi'i ddadgyfuno sydd ar gael yng Nghymru. Yn wir, mae un o'r argymhellion o Gam Un o'r Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol 2018, a wnaed gan Chwarae Teg, yn cynnwys pennu camau i wella'r data wedi'i ddadgyfuno sydd ar gael. Bydd angen i unrhyw waith yn y maes hwn roi ystyriaeth i faterion ymarferol megis meintiau cymharol fechan y samplau sy'n gysylltiedig â'r arolygon cenedlaethol a gynhelir yng Nghymru, a chost-effeithiolrwydd cynyddu meintiau samplau ac archwilio cyfleoedd i gyplysu data i wneud iawn am hyn.

## Cynyddu meintiau samplau arolygon

Cydnabyddir yn eang, oherwydd poblogaeth gymharol fach Cymru, fod maint samplau llawer o'r arolygon cenedlaethol yn rhy fach i ganiatáu i'r data gael ei ddadansoddi i'r lefel o fanylder sy'n ofynnol. Er enghraifft, yn achos yr Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS) yng Nghymru, mae'r sampl Gymreig gymharol fechan yn golygu nad yw'n bosibl gwneud dadansoddiad manwl yn ôl ethnigrwydd. Un dewis i ddatrys hyn yw cynyddu maint y samplau a ddefnyddir yn yr arolygon a wneir yng Nghymru. Byddwn yn ystyried y costau, y manteision a'r risgiau i Lywodraeth Cymru yn sgil ariannu sampl fwy ar gyfer FRS, gyda phwyslais arbennig ar ba ffynonellau data amgen sydd ar gael ac sy'n gallu diwallu ein hanghenion gwybodaeth a'r cyfleoedd a geir i'r dyfodol drwy ddatblygiadau mewn cyplysu data.

## Defnyddio rhagor ar gyplysu data

Mae cyplysu data yn creu cysylltiadau rhwng ffynonellau data fel bod modd cysylltu gwybodaeth ddienw y credir ei bod yn ymwneud â'r un person, teulu, lle neu ddigwyddiad at ddibenion ymchwil. Fel hyn, gellir defnyddio cofnodion gweinyddol i ychwanegu gwerth at setiau data arolygon cymdeithasol sy'n bodoli eisoes; er enghraifft, drwy gymharu ffigurau defnyddio'r gwasanaeth iechyd ag iechyd hunangofnodedig a lles goddrychol, er mwyn gallu datblygu gwybodaeth fwy cyfoethog am boblogaeth Cymru. Drwy gyplysu ffynonellau data lluosog mae maint y samplau sy'n cael eu dadansoddi yn cynyddu, gan ei gwneud hi'n ymarferol darparu data y gellir ei ddefnyddio ar gyfer rhai grwpiau nad ydynt wedi'u dosbarthu'n unffurf yn y boblogaeth, yn ogystal â darparu amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd daearyddol llai.

# Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae dull Llywodraeth Cymru o asesu effaith ein polisïau a'n cynigion yn cynnwys dadansoddiad ffurfiol, systematig a thrylwyr o dystiolaeth o gydraddoldeb ac ymgysylltu â chymunedau, unigolion ac arbenigwyr. Mae hyn yn ein helpu i ddeall a oes angen cymryd camau priodol i ddileu neu leihau unrhyw effeithiau negyddol y polisïau neu'r cynigion hyn, a lle ceir cyfleoedd i hyrwyddo a chynyddu cyfle cyfartal i bawb sy'n byw yng Nghymru.

## Astudiaeth achos

### Nodau – Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.
### – Hybu cyfle cyfartal.
### – Meithrin perthnasoedd da.

Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymysg y grwpiau sydd fwyaf ar y cyrion yn ein cymdeithas. Gwyddom fod y grwpiau hyn yn aml yn wynebu gwahaniaethu, anghydraddoldeb a diffyg cyfleoedd. Rydym eisiau sicrhau bod aelodau'r cymunedau hyn yn cael eu helpu i gyflawni eu potensial a gwneud cyfraniad llawn i'r gymdeithas yng Nghymru.

Yn 2017/18 fe wnaethom gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar fframwaith gweithredu newydd i ddisodli 'Teithio at Ddyfodol Gwell', a gyhoeddwyd yn 2011. Mae'r fframwaith newydd hwn yn gweithredu fel y prif gyfrwng a ddefnyddia Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn mabwysiadu dull cydlynus o ddatblygu a gwella mynediad i help, cyngor a gwasanaethau ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws Cymru.

Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2017, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a chynrychiolwyr trydydd sector. Yn ogystal ag ymatebion ysgrifenedig, ac ar y cyd â TGP Cymru, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori ag aelodau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws Cymru.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ffurf cyfweliadau unigol ar safleoedd preifat a chyhoeddus ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac amrywiol grwpiau ffocws gyda gwahanol gymunedau. Yn gyfan gwbl, cyfwelwyd 48 o aelodau'r gymuned yn uniongyrchol fel rhan o'r broses ymgynghori. Cynhaliodd TGP Cymru hefyd ymgynghoriad â chymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr ar draws Cymru gan ddod â nifer aelodau'r gymuned a gyfwelwyd i 94, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Defnyddiwyd amrywiol ffynonellau tystiolaeth i ddatblygu'r fframwaith, ac i nodi lle'r oedd angen gweithredu wedi'i dargedu. Er enghraifft, mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ddata Cyfrifiad 2011 ar Sipsiwn a Theithwyr yn darparu data defnyddiol, er yn brin, am yr anghydraddoldebau y mae'r cymunedau hyn yn eu hwynebu, ac fe wnaeth hyn gyfrannu at y gwaith o lunio'r cynigion newydd. Ychwanegwyd data presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol a gasglwyd gan awdurdodau lleol Cymru ac sydd ar gael drwy StatsWales.

Dylanwadodd y broses ymgysylltu â'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth o gydraddoldeb ar ein hasesiad o effaith y fframwaith arfaethedig. Helpodd i wella'r cynigion gan dynnu sylw at unrhyw fylchau neu anghysonderau i sicrhau bod y fframwaith yn cael ei ddarparu'n eang ac yn effeithiol. Er enghraifft, canfuom fylchau yn ein gwybodaeth ynglŷn â sut byddai cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ceisio elwa o'r Arlwy Gofal Plant, ac o ganlyniad fe wnaethom ymrwymo i ddull gwell o roi gwybodaeth am gymorth o'r fath iddynt.

Cyhoeddom y fframwaith newydd 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ein gwefan ym mis Mehefin 2018.

## Asesiad Effaith Integredig

Yn ystod 2017/18 fe wnaethom barhau i ddatblygu Teclyn Asesu Effaith Integredig (IIA), a roddwyd ar dreial cyn ei weithredu ym mis Gorffennaf 2018. Mae IIA yn integreiddio nifer o brosesau asesu effaith i leihau cymhlethdod a dyblygu, ac mae'n cefnogi ein hymdrechion i weithio'n gydweithredol ar draws portffolios er mwyn cael prosesau gwell ar gyfer llunio a chyflenwi polisïau.

Diben y teclyn ydy galluogi adrannau i ystyried effaith gweithredoedd a pholisïau'r llywodraeth o ran y rheini sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â'r effaith ar blant a phobl ifanc. Mae hefyd yn helpu i roi mwy o bwyslais ar fonitro canlyniadau'r grwpiau hynny sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, yn barhaol.

Bu sefydliadau allanol yn darparu arbenigedd a sicrwydd ansawdd wrth lunio'r teclyn. Ymysg y sefydliadau hyn yr oedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, swyddfa'r Comisiynydd Plant, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Plant yng Nghymru, a Rhwydwaith Cydraddoldeb GIG Cymru.

## Asesiad o Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb

Er mwyn ein helpu i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb yn ein cynlluniau gwario a sicrhau ein bod yn adrodd yn fanwl ar ein hymdrechion i wneud hynny, mae Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) Llywodraeth Cymru yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i ddarparu cyngor a chymorth cydraddoldeb arbenigol a gwella'r sylfaen dystiolaeth gydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfarfu'r grŵp ar ddechrau ein proses o gynllunio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol, ac eto yn dilyn yr ail rownd o gyfarfodydd dwyochrog Ysgrifennydd y Cabinet ar Gyllid â chydweithwyr y cabinet i drafod y gyllideb nesaf.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom adolygu aelodaeth y grŵp er mwyn sicrhau ymgysylltiad agosach â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i wella'r broses gyllidebol. Adolygasom hefyd ein hymgysylltiad â'r grŵp hwn i sicrhau bod y mecanweithiau cywir ar waith i adrodd yn ôl ei sgyrsiau a'i awgrymiadau i'r swyddogion sy'n gyfrifol am baratoadau'r gyllideb.

## Ein Rhwymedigaethau Rhyngwladol – Hawliau Dynol

Yn ystod 2017/18, cafodd y DU ei thrydydd Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol (UPR). Mae'r UPR yn cynnwys asesu cofnodion hawliau dynol y 193 o Aelod-Wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig bob pedair blynedd. Mae'n rhoi cyfle i bob Gwladwriaeth gyflwyno'r camau y maent wedi'u cymryd i wella'r sefyllfaoedd hawliau dynol yn eu gwledydd.

Fel rhan o'r broses hon cafwyd deialog ar 4 Mai 2017 yng Ngenefa rhwng y DU a'r Gweithgor UPR. Mae'r Gweithgor yn cynnwys holl Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ac mae'n cael ei gadeirio gan Arlywydd Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig. Yn ystod y drafodaeth, fe wnaeth Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ofyn cwestiynau, rhoi sylwadau a gwneud argymhellion i'r DU.

Cynrychiolwyd Llywodraeth Cymru hefyd fel rhan o'r ddirprwyaeth a deithiodd i Genefa ar gyfer archwiliad y Cenhedloedd Unedig o sut mae'r DU yn cydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ar 23 a 24 Awst 2017.

Rhoddodd yr archwiliad gyfle i dynnu sylw at waith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo hawliau pobl anabl. Roeddem yn falch fod y

Pwyllgor ar Hawliau Pobl Anabl wedi dewis croesawu dyfodiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei Sylwadau Terfynol. Rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud yng Nghymru, ac rydym yn gwerthfawrogi'r adborth gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

## Caffael

Mae cyrff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gwario oddeutu £6 biliwn bob blwyddyn ar brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan gyflenwyr. Mae'n bwysig bod pob punt sy'n cael ei gwario yn cael ei gwario'n ddoeth, gan gael y gwerth gorau i bobl Cymru.

### Cyflawni'r Ddyletswydd Caffael yn Nyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru

Fel rhan o ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru, rhaid inni:

- ystyried yn benodol a fyddai'n briodol i feini prawf dyfarnu contract gynnwys ystyriaethau i helpu i gyrraedd tri nod y PSED; ac
- ystyried yn benodol a fyddai'n briodol rhagnodi amodau yn ymwneud â pherfformiad contract sy'n berthnasol i berfformiad y PSED.

### Ein Polisi Caffael

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) yn cynnwys deg egwyddor allweddol y dylai holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru lynu wrthynt wrth gyflawni eu gweithgaredd caffael. Mabwysiadwyd y WPPS yn eang gan gyrff cyhoeddus blaenllaw yng Nghymru, gyda'r 22 awdurdod lleol wedi cadarnhau eu bod wedi ei fabwysiadu a chaiff y niferoedd sy'n ei ddefnyddio ei fonitro.

Mae'r datganiad polisi yn darparu y dylid ystyried Gwerth am Arian fel 'y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol'.

Wedi'u cynnwys yn y datganiad polisi ceir nifer o ysgogyddion allweddol sy'n dylanwadu ar gyflenwi ystyriaethau cydraddoldeb gan gynnwys:

- sicrhau bod polisïau allweddol megis Buddion Cymunedol yn cael eu cynnwys mewn contractau;
- symleiddio'r broses gaffael a gostwng y rhwystrau i gyflenwyr;
- hysbysebu cyfleoedd i ymgeisio am gontractau drwy wefan GwerthwchiGymru; a
- chwblhau Asesiad Risg Cynaliadwyedd (SRA) wrth gynllunio ymarferiad caffael er mwyn sicrhau bod contractau cyhoeddus yn ystyried eu dyletswyddau cydraddoldeb pan gaiff contractau eu gweithredu.

### Prif ffrydio a Gwreiddio Cydraddoldeb mewn Ymarferiadau Caffael – Canlyniadau

Bu Llywodraeth Cymru yn arwain y broses o gyflenwi polisïau caffael sector cyhoeddus Cymru sydd wedi cyfrannu at sicrhau cydraddoldeb am nifer o flynyddoedd. Dyma rai o'r polisïau allweddol:

- Cynhelir Asesiad Risg Cynaliadwyedd ar bob un o gontractau Llywodraeth Cymru sydd dros £25,000, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddyletswyddau cydraddoldeb ac y cymerir camau mewn contractau lle bo'n briodol.
- Gweithredir y polisi Buddion Cymunedol yn eang mewn contractau sector cyhoeddus i gyflenwi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl dan anfantais. Mae'r dull hefyd yn targedu cymorth addysgol ar draws cymunedau gan gyflenwyr ar gyfer pynciau allweddol

megis Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

Ar 31 Mawrth 2018, dengys y canlyniadau o'r 379 prosiect sector cyhoeddus cyntaf, gwerth £1.54 biliwn, fod 82% wedi cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru, £316 miliwn yn uniongyrchol ar gyflogau i ddinasyddion Cymru, ac oddeutu £950 miliwn â busnesau a leolir yng Nghymru, gyda 72% o'r rhain yn fusnesau bach a chanolig. Cafodd oddeutu 2,275 o bobl dan anfantais eu helpu i gyflogaeth, gan dderbyn dros 48,534 o wythnosau o hyfforddiant.

- Caiff Buddion Cymunedol eu cynnwys yn holl brif raglenni buddsoddi Llywodraeth Cymru:
  - fe'u cynhwysir fel dewis ym mhroses grantiau Llywodraeth Cymru fel un o amodau sylfaenol cyllid grant, ac fe'u defnyddir mewn prosiectau allweddol megis Ysgolion 21g a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid;
  - mae rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol Cymru hefyd wedi ymrwymo i gyflenwi manteision cymunedol ehangach drwy gyfrwng cynlluniau buddsoddi mewn seilwaith; ac
  - mae cyflenwi buddion cymunedol yn rhan annatod o raglenni a phrosiectau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- Mae'r rhaglen Swyddi Gwell yn Nes Adref yn mynd rhagddi, gan integreiddio polisïau trawsbynciol er mwyn helpu i greu cyflogaeth yn rhai o gymunedau tlotaf Cymru. Mae timau Sgiliau a Busnes Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y rhaglen hon a defnyddia ddeddfwriaeth gaffael yn arloesol er mwyn cael yr effaith economaidd fwyaf. Mae'r rhaglen yn targedu ymyriadau caffael i greu cyfleoedd cyflogaeth cyfartal i ddinasyddion Cymru.

# Rhan 2 – Sector cyhoeddus Cymru: cyflawniadau, heriau a'r camau nesaf

## Trosolwg

Mae'r adran hon yn cyflawni ein dyletswydd i gyhoeddi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb bob pedair yn unol â rheoliad 17 o Reoliadau 2011 gan amlinellu'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru tuag at gydymffurfio â'r PSED, a chyfleoedd pellach ar gyfer gweithredu cydlynol. Mae 'awdurdodau perthnasol Cymru' yn cyfeirio at gyrff cyhoeddus a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Lle'r ydym wedi cyfeirio at y 'sector cyhoeddus yng Nghymru' neu debyg, nid ydym ond yn cyfeirio at y cyrff hynny a restrir yn yr atodlen ac sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru.

Dyma ein hail adroddiad o dan y gofyniad adrodd statudol hwn ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Rhagfyr 2014 a Rhagfyr 2018. Fel y darperir ar ei gyfer gan reoliad 17 cyhoeddasom adroddiad interim yn 2016 a oedd yn darparu diweddariad ar y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu o adroddiad cyntaf Gweinidogion Cymru yn 2014.

Fe wnaethom wahodd awdurdodau perthnasol Cymru i roi adborth ar eu profiadau wrth weithredu tri nod y PSED yn eu sefydliadau, gan gydnabod yr amrywiaeth eang o ran maint, adnoddau a natur eu swyddogaethau. Cawsom gyfradd ymateb dda gydag ymatebion craff ac o ansawdd uchel gan lawer o sefydliadau.

Mae hanner cyntaf yr adroddiad Rhan 2 hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru tuag at gydymffurfio â'r PSED yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yng Nghymru eleni wedi gwneud gwaith ymchwil cydymffurfio a monitro gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol a chanfod a yw'r PSED yn cael ei ddefnyddio i symud ymlaen i weithredu i wneud Cymru'n genedl fwy cyfartal. Mae'r meysydd a fonitrwyd yn cynnwys:

- Gwneud gweithluoedd yn fwy amrywiol
- Cyflogi pobl anabl
- Casglu gwybodaeth am gyflogaeth
- Rhoi sylw i wahaniaethau mewn cyflogau
- Testunau penodol i sectorau gan gynnwys:
  - Awdurdodau lleol: camau a gymerwyd i roi sylw i fwlio ar sail hunaniaeth mewn ysgolion.
  - Ymddiriedolaethau GIG/Byrddau Iechyd: faint o bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.
  - Addysg Uwch: camau a gymerwyd i drechu trais ar sail hunaniaeth.
  - Colegau Addysg Bellach: sut mae colegau yn hybu amrywiaeth mewn cynlluniau prentisiaeth.
  - Gwasanaethau Tân ac Achub: amrywiaeth y gweithlu a mynediad i wybodaeth.
  - Llywodraeth Cymru: cynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.
  - Cyrff rhestredig eraill gan gynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad: sut maent yn defnyddio'r ddyletswydd gaffael.

Bydd yr EHRC yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ar ei wefan. Felly, er mwyn osgoi dyblygu gwaith yr EHRC yn y maes hwn, nid ydym wedi cynnwys disgrifiad cynhwysfawr o'r holl weithgarwch cydymffurfio, yn hytrach rhoesom drosolwg sy'n amlygu meysydd arfer da neu lle mae angen mwy o gynnydd. Dylid nodi hefyd bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru yn ddarostyngedig i ofynion adrodd statudol dyletswyddau penodol Cymru, a bod gofyn iddynt felly gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Mae gwybodaeth fanylach am gydraddoldeb ar gyfer y cyrff hyn fel rheol i'w chael ar eu gwefannau.

Mae ail hanner Rhan 2 yn amlinellu ein cynigion ar gyfer cydlynu camau pellach gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau yn sector cyhoeddus Cymru er mwyn cydweithio i wella cynnydd tuag at gydymffurfiaeth, a hefyd i sicrhau bod y PSED yn cael ei gweithredu'n ystyrlon ac yn sicrhau canlyniadau positif i bawb sy'n byw yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth gydraddoldeb sy'n sail i'r adroddiad hwn i'w chael yn Atodiad 1.

## Cynnydd a phrif gyflawniadau

Mae cyflwyno'r PSED a dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru wedi esgor ar nifer o esiamplau positif sydd wedi helpu i fwrw'r agenda gydraddoldeb ymlaen yng Nghymru. Isod, rydym wedi cynnwys rhai o'r esiamplau a ddarparwyd inni gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru:

### Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN)

Ers cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010, mae swyddogion cydraddoldeb yn y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn cydweithio i hyrwyddo'r agenda gydraddoldeb a mynd i'r afael â materion ar anghydraddoldeb sy'n torri ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Er 2011, mae NWPSEN wedi cydweithio i ddatblygu set o Amcanion Cydraddoldeb. Datblygwyd y cyd amcanion hyn ar ôl digwyddiad ymgynghori yng Ngogledd Cymru, ac ar ôl gwerthuso'r dystiolaeth a oedd ar gael bryd hynny, gan gynnwys gwybodaeth a gyhoeddwyd yn adroddiad EHRC "Pa mor deg yw Cymru?" Roedd i bob amcan gyfres o gamau gweithredu a chytunodd pob partner i gyfrannu at feysydd gweithredu gwahanol.

Cynhaliwyd ail ddigwyddiad ymgysylltu ym mis Hydref 2015 i wrando ar farn rhanddeiliaid ynghylch yr hyn y dylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Yn seiliedig ar y digwyddiad ymgysylltu hwn ac yn sgil dadansoddi'r adroddiadau a gyhoeddwyd, a thystiolaeth anecdotaidd, daeth NWPSEN i'r casgliad bod yr amcanion gwreiddiol yn dal yn berthnasol ac nad oedd angen ond gwneud ychydig iawn o newidiadau i'r meysydd gweithredu cysylltiedig.

## Hygyrchedd

### Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS)

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cydnabod eu bod yn dod ar draws cymunedau amrywiol wrth gyflenwi eu gwasanaethau. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cynhyrchu Llawlyfr Cymunedol sy'n rhoi cipolwg ar y cymunedau amrywiol y gall staff ddod ar eu traws yn ystod eu gwaith. Bwriedir i'r llawlyfr fod yn adnodd cyfeirio i staff i'w cynorthwyo i ddeall amrediad eang o ddiwylliannau. Cyflwynwyd y llawlyfr fel rhan o'r Wobr Iechyd Corfforaethol Platinwm ac fe'i gosodwyd ar fwrdd gwybodaeth electronig y Gwasanaeth er mwyn i bob aelod o staff ei weld.

### Addysg uwch

Mae Prifysgolion yng Nghymru yn ymdrechu i ddenu a chadw'r myfyrwyr disgleiriaf o amrywiol gefndiroedd, a darparu profiad dysgu ac ymchwilio cynhwysol a chefnogol. Mae cefnogaeth ar gael yn eang i fyfyrwyr anabl ac mae nifer o brifysgolion wedi adrodd ar y gwelliannau y maent wedi'u gwneud i hygyrchedd a chynhwysiant yn ystadau'r Brifysgol, gyda llawer wedi ymrwymo i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

### Llywodraeth leol

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno Swyddogion Datblygu ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig penodol, gan gyflenwi rhaglenni gwaith uchelgeisiol i sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni anghenion penodol eu cymunedau.

## Cyngor Rhondda Cynon Taf: mynediad i wasanaethau tacsis

### Astudiaeth achos

Yn ystod 2017, derbyniodd y Cyngor gwynion gan y cyhoedd ynglŷn â gyrwyr tacsis yn Rhondda Cynon Taf nad oeddent yn derbyn cwsmeriaid sy'n ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Fe wnaeth y tîm Trwyddedu ynghyd ag aelodau o'i Fforwm Anabledd cyhoeddus a rhwydwaith Anabledd a Gofalwyr y staff gynnal ymarfer 'siopwr cudd' i asesu'r broblem. Cafwyd adborth cymysg gan y cyfranogwyr.

Derbyniodd mwyafrif y gyrwyr tacsis gwsmeriaid sy'n ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gan ddarparu lefel dda o wasanaeth i gwsmeriaid. Fodd bynnag, fe wnaeth rhai wrthod, sy'n amlwg yn annerbyniol. Roedd nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys diffyg lle yng nghist y tacsi ac roedd agwedd y gyrrwr yn amhriodol.

Cyfarfu'r tîm Trwyddedu â'r gyrwyr tacsi dan sylw i amlinellu'r disgwyliadau, codi ymwybyddiaeth o faterion anabledd ac amlinellu canlyniadau peidio â darparu gwasanaeth tacsi cynhwysol. Fe wnaeth y tîm hefyd godi ymwybyddiaeth o anabledd â phob gyrrwr tacsi yn y fwrdeistref.

Mae'r Tîm Trwyddedu yn ymrwymedig i barhau i godi ymwybyddiaeth o anabledd ar draws y busnes tacsis, gan sicrhau y cymerir camau gorfodi priodol mewn unrhyw achos o dorri'r ddeddfwriaeth neu beidio â chydymffurfio â'r hyn a ddisgwylir gan yrwyr/gweithredwyr trwyddedig.

**Iechyd**

Mae'r Safon Gwybodaeth Hygyrch (AIS) yn brosiect cenedlaethol i gipio, cofnodi, rhannu a nodi anghenion cyfathrebu a gwybodaeth y rheini sydd â nam ar eu synhwyrau. Gan weithio â Llywodraeth Cymru, mae gan systemau Meddygon Teulu bellach y gallu i gipio a chofnodi'r anghenion a nodwyd.

Dechreuodd y gwaith o ymgysylltu â'r gymuned nam synhwyraidd, a gweithwyr iechyd proffesiynol, i drafod a chodi ymwybyddiaeth o'r AIS ym mis Medi 2017. Mae dros 500 o bobl yn y gymuned a dros 200 o weithwyr iechyd proffesiynol wedi cymryd rhan yn y trafodaethau. Datblygwyd nifer o adnoddau gan gynnwys taflenni, posteri a sgrin-luniau i gefnogi practisau meddygon teulu i weithredu'r Safon newydd. Hefyd, mae adnodd digidol i helpu staff rheng flaen, yn enwedig meddygfeydd meddygon teulu, i ddeall a defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) sylfaenol i gyfarch cleifion byddar wedi ei ddatblygu ac mae ar gael er mis Medi 2018 drwy wefan y Ganolfan.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

## Cyngor Celfyddydau Cymru: Cynllun Mynediad i Bobl Anabl

### Astudiaeth achos

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi comisiynu gwaith i lunio a chyflwyno cynllun mynediad i bobl anabl o'r enw Hynt, sy'n darparu tocynnau am ddim i leoliadau celf i ofalwyr pobl anabl. Hyd yma, cyflwynwyd dros 12,000 o docynnau ac maent wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl anabl sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol.

## Tystiolaeth o gydraddoldeb

### Addysg bellach

Mae colegau yn dadansoddi canlyniadau ar gyfer dysgwyr yn seiliedig ar ryw, ethnigrwydd ac anabledd, ac yn asesu data cofrestru a stereoteipio ar sail rhyw. Maent wedi canfod nad oes gan fenywod ifanc yn dal ddim cynrychiolaeth deg ym maes peirianneg ac adeiladu ac nad oes gan ddynion ifanc gynrychiolaeth deg ar gyrsiau fel trin gwallt a gofal.

## Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC): Rhaglen Prentisiaethau Iau

### Astudiaeth achos

Mae'r rhaglen Prentisiaethau Iau wedi cael effaith aruthrol ar leihau nifer y bobl ifanc NEETS yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae wedi gwneud y canlynol:

- Mae wedi sefydlu cyfres o weithdai ac interniaethau â'r BBC i wella cynrychiolaeth grwpiau amrywiol yn y Diwydiannau Creadigol.
- Mae'r rhaglen yn gweithio â Chlwb Bocsio Tiger Bay i sicrhau bod pob cymuned yn cael y siawns gorau gan gynnal gweithgareddau cymunedol penodol ynglŷn â phrentisiaethau.
- Mae'n gweithio â'r gymuned Somaliland i hybu cydraddoldeb ac mae hyn wedi arwain at nifer o weithgareddau, gan gynnwys cynnal grŵp at y pwrpas Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTLLS).

**Iechyd**

Mae Arolwg o Gleifion Mewnol GIG Cymru yn ddull sefydledig o fesur ac adrodd ar foddhad defnyddwyr gwasanaethau ac fe'i defnyddir yn genedlaethol o fewn GIG Cymru. Anfonir yr arolwg at hap sampl o 1,000 o ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi'u nodi yn gleifion mewnol yn ystod y tri mis blaenorol. Mae cyfraddau ymateb yn tua 30%, sy'n uchel ar gyfer y math hwn o arolwg post, hunan-adrodd. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau sy'n galluogi ymatebwyr i nodi eu nodweddion gwarchodedig.

Yn 2017/2018 dangosodd y canfyddiadau lefel uchel fod ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl yn adrodd am lefelau boddhad defnyddwyr gwasanaethau is nag ymatebwyr nad oeddent yn anabl, fel yr oedd yn wir hefyd yn 2016/2017.

Yn 2016/2017 adroddodd defnyddwyr gwasanaethau benyw lefelau boddhad is o'u cymharu â defnyddwyr gwasanaethau gwryw; fodd bynnag, yn 2017/2018 roedd hyn wedi gwella ac adroddodd defnyddwyr gwasanaethau benyw lefelau boddhad tebyg yn ystadegol i ddefnyddwyr gwasanaethau gwryw.

## Ymgysylltu

**Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS)**

Mae Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol Cenedlaethol (IFSG) wedi ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb gan gynnwys Stonewall, MIND, Women in the Police Service, Asian Fire Service Association, Women in the Fire Service, Undeb menywod Brigadau Tân Cymru, pwyllgorau BAME ac LGBT, ac undebau llafur eraill (Unsain ac Undeb y GMB).

Asesodd yr IFSG y sefyllfa gyfredol a nodi unrhyw themâu ailadroddus. Y dasg oedd nodi canllawiau y gellid eu defnyddio ar lefel leol i annog gwelliant. Wrth wneud hynny, archwiliodd y grŵp nifer o ddangosyddion, materion a thueddiadau allweddol, gan gynnwys y rhai a restrir isod:

- cynrychiolaeth isel ymysg menywod a phobl BAME ar draws y gweithlu lifrau;
- lefelau isel, yn gyfrannol, y menywod a phobl BAME sy'n symud ymlaen drwy'r rolau;
- problemau bwlio ac aflonyddu;
- diffyg data ar bersonél mewn lifrau sy'n LGBT;

- annog ymrwymiad rheolwyr i gychwyn a hyrwyddo cynlluniau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson; a
- lefelau achosion cwyno/disgyblu ymysg gweithwyr lifrau sy'n fenywod neu'n bobl BAME.

**Llywodraeth leol**

## Cyngor Merthyr Tydfil: ymgysylltu

### Astudiaeth achos

Mae Cyngor Merthyr Tydfil wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Cyngor, swyddogion y cyngor a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd yn y gymuned.

Ymysg y rhanddeiliaid allweddol y mae cynrychiolwyr o'r Loteri Fawr – Prosiect Llais Cymunedol MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Gwell Rhwydweithio ac Ymgysylltiad Ynghyd). Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i aelodau cymunedau sydd ar y cyrion i godi eu llais i ddylanwadu ar bolisïau, a phrosesau cynllunio a chyflawni darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

**Iechyd**

Mae Byrddau Iechyd yn cydnabod bod gwrando ar bobl yn siarad am eu profiad yn eu geiriau eu hunain yn ffordd bwerus o ddeall yn well yr hyn sy'n digwydd yn ymarferol. Mae'r sgyrsiau hyn yn rhoi cipolwg ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella. Mae Byrddau Iechyd yn defnyddio amrywiol ddulliau o hwyluso hyn ac yn defnyddio'r adborth a gânt i wella'r gwasanaethau a ddarparant.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC):

### Astudiaeth achos

Ym mis Gorffennaf 2017, trefnodd y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu Corfforaethol yn BIPBC ddigwyddiad i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig i sicrhau bod cynifer o leisiau â phosibl yn cael eu clywed yn ystod y gwaith o lunio'r Strategaeth Iechyd newydd. Gwahoddwyd rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchodedig i fod yn rhan o'r sgwrs bwysig hon, i rannu eu syniadau a'u profiadau amrywiol, er mwyn helpu'r Bwrdd Iechyd i lunio'r dyfodol ar gyfer iechyd, lles a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru. Cynhaliwyd y sesiynau gweithdy ar themâu o amgylch meysydd allweddol, sef Gofal Ysbytai Acíwt, Gwella Iechyd, Lleihau Anghydraddoldebau, a Gofal yn Nes at Adref.

## Cydraddoldeb rhywiol

### Gwasanaethau Tân ac Achub

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnal nifer o gynlluniau recriwtio er mwyn cael gweithlu amrywiol a chynrychioliadol.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnal digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol rheolaidd ac yn annog pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i fynychu. Mae digwyddiadau o'r fath yn rhoi cipolwg ar yrfa diffoddwyr tân a'r nod yw galluogi neu annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig i oresgyn anfantais sy'n gysylltiedig â'r nodwedd. Er enghraifft, galluogi menywod i roi cynnig ar y profion dethol corfforol ac ymarferol.

Cynhelir nosweithiau agored ar gyfer darpar ymgeiswyr yn rheolaidd ac mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn annog menywod a chymunedau BAME i fynychu. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn ymgeiswyr benyw.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn monitro ei weithgarwch recriwtio i nodi unrhyw dueddiadau ar gyfer grwpiau gwarchodedig penodol ac i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr yn y cam iawn yn y broses.

### Addysg uwch

Yr ECU/Advance HE sy'n berchen ar y nod siarter Athena Swan ac yn gyfrifol amdano. Mae'r nod siarter yn cydnabod gwaith prifysgolion i hybu cynrychiolaeth menywod ym maes y gwyddorau, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth. Mae chwe phrifysgol yng Nghymru wedi ennill nod siarter efydd.

Gwnaed gwerthusiad o Athena Swan yr ECU yn 2011 a gwelwyd yr effaith bositif y mae'r wobr yn ei chael ar strwythurau sefydliadol a newid diwylliannol mewn Sefydliadau Addysg Uwch, gyda chynnydd yng nghyfran y menywod, gwell cynrychiolaeth o fenywod ar bwyllgorau, gwelliannau yn y trawsnewid o ymchwil ôl-ddoethurol i swyddi academaidd cyntaf, arferion gweithio a chefnogi twf a datblygiad gyrfaol menywod mewn rhwydweithiau menywod.

### Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Nod Prosiect Geogelcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ydy gwella lefelau gweithgaredd a llythrennedd corfforol ymysg pobl ifanc 11-25 oed sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ac y cydnabyddir (yn Arolwg o Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru) bod eu lefelau gweithgaredd corfforol yn isel.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda bechgyn a merched 11-25 oed. Rhoddir cyfle i bawb gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol, rhywbeth sy'n anodd fel arall i bobl ifanc ddifreintiedig nad oes ganddynt draddodiad teuluol o ymweld â chefn gwlad na char i wneud hynny.

Bu'r prosiect yn arbennig o lwyddiannus wrth weithio gyda merched. Mae gan y merched sy'n mynychu ddiffyg hyder yn gyffredinol, ac yn enwedig yn eu gallu corfforol. Mae cael cefnogaeth gan staff y prosiect mewn amgylchedd corfforol anghystadleuol wedi eu galluogi, yn aml am y tro cyntaf, i ysgwyddo rolau arweinyddiaeth yn y gweithgareddau a meithrin llythrennedd corfforol.

## Heriau

Cyfeiriodd y cyrff sector cyhoeddus at yr heriau a gawsant neu a welsant wrth weithredu'r PSED. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y themâu cyffredin o'r dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt.

## Cyni a Diwygio Lles

Mae cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cyflawni mewn amser o lai o gapasiti a dyraniadau cyllid llai. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod bob amser yn wynebu toriadau yn y gyllideb,

a bod cydraddoldeb yn darged hawdd. Mae angen ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn sicrhau y ceir cyfleoedd i gryfhau gwaith cyrff cyhoeddus ar gydraddoldeb o fewn y gostyngiad presennol mewn gwariant cyhoeddus.

Dywedodd sefydliadau eu bod hefyd wedi gorfod lleihau eu cymorth ariannol i fudiadau trydydd sector a grwpiau cymunedol.

Er enghraifft, gorfodwyd Cyngor Bro Morgannwg i haneru ei gyllid i raglen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth gan arwain at hanner y gweithdai a gafwyd yn y blynyddoedd cynt. Roedd hyn yn golygu bod llai o blant a phobl ifanc wedi gallu cymryd rhan.

Mae adnoddau i'r trydydd sector, sy'n bartner cyflawni hollbwysig ac yn ffynhonnell o arbenigedd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, hefyd wedi lleihau ac mae hyn wedi golygu nad yw awdurdodau lleol yn gallu ymgysylltu â grwpiau sy'n gallu cynrychioli anghenion y rheiny sydd angen cefnogaeth fwyaf.

## Tystiolaeth o gydraddoldeb – casglu data

### Gwasanaethau Tân ac Achub

Cynhaliodd yr IFSG arolwg o ddiwylliant ac ymddygiad y gwasanaethau tân ac achub i gael trosolwg ar eu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth, pa bolisïau a chynlluniau sydd gan Wasanaethau ar waith (er enghraifft polisïau cyfryngau cymdeithasol), unrhyw ddulliau cefnogi mewnol, ac i weld unrhyw dueddiadau diwylliannol neu ymddygiadol sy'n ymwneud ag achosion cwyno ac achosion disgyblu ar lefel ffurfiol. Daeth yn amlwg wrth ddadansoddi data o'r arolwg fod y broses yn cael ei rhwystro gan anghysondeb ar draws y Gwasanaethau yn y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chofnodi a'i monitro.

Ar hyn o bryd mae'r IFSG yn datblygu canllawiau ar gyfer gwasanaethau tân ac achub i wella cysondeb i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys addasu'r strategaethau pan fo angen a datblygu strategaethau newydd wrth i faterion godi.

### Llywodraeth leol

Mae casglu a dadansoddi data yn benodol o safbwynt cydraddoldeb yn dal i fod yn her i bob awdurdod lleol ledled Cymru. Mae gan y gwasanaethau lawer o alwadau i adrodd ar wybodaeth am eu gwasanaethau wrth gyrff rheoleiddio. Os nad yw'r cyrff rheoleiddio hyn yn cynnwys monitro, dadansoddi ac adrodd ar nodweddion gwarchodedig, gallai gael llai o flaenoriaeth yng nghyd-destun gofynion cystadleuol.

Y prif rwystr mewn perthynas â chasglu data cydraddoldeb ynglŷn â chwsmeriaid yw bod y meysydd gwasanaethau yn cipio lefelau gwahanol o ddata cydraddoldeb ac yn ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Mae angen datblygu dull cyson o gasglu data ar draws llywodraeth leol, dull sy'n diwallu anghenion awdurdodau lleol a meysydd gwasanaethau.

### Iechyd

Adroddodd Byrddau Iechyd fod ganddynt gryn waith i'w wneud o hyd i wella'u dull o gasglu ac adrodd ar ddata cydraddoldeb ynglŷn â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae hyn yn cynnwys addasu'r systemau cyfredol i gasglu'r data a chodi mwy o ymwybyddiaeth ynglŷn â pham y dylid casglu'r wybodaeth a'i defnyddio i wella gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion. Mae'r un heriau i'w gweld o safbwynt casglu data cydraddoldeb ar gyfer staff.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Dywedodd pob corff cyhoeddus fod ganddynt broses ar waith i sicrhau bod asesiadau o effaith yn cael eu cynnal

ar bolisïau a strategaethau newydd a diwygiedig.

Er bod cynnydd wedi ei wneud, erys her allweddol i feithrin capasiti ac arbenigedd pellach i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac ymgorffori'r egwyddorion yn well er mwyn cryfhau'r prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i ba mor effeithiol a thryloyw yw'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb a sut i ymgorffori'n well asesiadau o effaith mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Gwelwyd bod rhannu enghreifftiau o asesiadau effaith effeithiol a'r newidiadau a wnaed o'r herwydd yn gallu bod o gymorth i wella'r ddealltwriaeth o fanteision asesu effaith.

## Cydraddoldeb rhywiol

**Gwasanaethau Tân ac Achub**

Er bod cynnydd wedi cael ei wneud, mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn dal i weld bod nifer yr unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n gwneud cais am swyddi gweithredol yn gymharol isel. Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cydnabod y ceir problemau cymdeithasol a hanesyddol yn ymwneud â rhagfarn anymwybodol a rôl-fodelu cymunedol sy'n ein rhwystro rhag gwneud cynnydd pellach; er enghraifft, yr amgyffrediad bod rôl diffoddwr tân yn fwy addas i ddynion. Serch hynny, bydd hwn yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Byddai'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn croesawu cymorth Llywodraeth Cymru, ysgolion, cynghorwyr gyrfaoedd ac ati i herio ystrydebau rhyw cyfredol fel bod menywod a menywod ifanc yn ystyried rôl diffoddwr tân fel rhywbeth niwtral o ran y rhywiau ac nid yn benodol i un rhyw.

**Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol**

Mae angen gwneud rhagor o waith i gynyddu nifer y cynghorwyr sy'n fenywod i wella cydbwysedd y rhywiau ymysg aelodau awdurdodau lleol a benodir i APCau. Ceir hefyd ddiffyg amrywiaeth ymysg yr holl aelodau o safbwynt nodweddion gwarchodedig eraill megis ethnigrwydd ac oedran. Mae angen edrych ar sut gall cynlluniau mentora i'r dyfodol a'r broses penodiadau cyhoeddus arwain at benodi unigolion i Lywodraeth Cymru o gefndiroedd amrywiol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae angen gwneud gwaith ehangach hefyd i edrych ar sut i gynyddu amrywiaeth ymysg Cynghorwyr lleol ar draws nodweddion gwarchodedig eraill.

# Gweithredu cydlynus er mwyn gwneud cynnydd pellach

## Cam Gweithredu 1: Rhoi sylw i'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu – *A yw Cymru'n Decach? 2018*

Cyhoeddwyd adroddiad EHRC 2018 'A yw Cymru'n Decach?' ym mis Hydref ac mae'n darparu tystiolaeth newydd sylweddol i ysgogi ac ategu gwaith yr holl lunwyr polisïau a'r asiantaethau cyflenwi sy'n ceisio creu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r adroddiad yn arf gwerthfawr i'n helpu i sicrhau bod ein prosesau gwneud penderfyniadau yn gadarn a bod ein polisïau a'n gwasanaethau yn ystyried anghenion pobl a'u bod yn hygyrch i bawb.

Mae'n casglu tystiolaeth o chwe maes bywyd: addysg, iechyd, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch, gwaith a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus. Mae'r rhagolygon i bobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig, a phlant o gefndiroedd tlotach wedi gwaethygu

mewn sawl maes bywyd. Mae perygl i'r anghydraddoldeb hwn sefydlu am genedlaethau, gan greu cymdeithas lle mae'r grwpiau hyn yn cael eu gadael ar ôl ar y siwrnai at wlad deg a chyfartal.

Bydd creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd ei lawn botensial ac yn gallu cyfrannu'n llawn i'r economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru a gyda'r EHRC i gyrraedd y nodau hyn. Mae cryn waith i'w wneud yn awr i ddeall yr argymhellion yn iawn ac ymateb iddynt ac mae swyddogion wedi dechrau'r gwaith hwnnw. Bydd cydweithio gyda'r sector cyhoeddus i fodloni'r heriau'n dechrau yn fuan yn 2019.

## Cam Gweithredu 2: Gweithredu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Fwy Cadarn

Ystyrir y PSED fel fframwaith ar gyfer gweithredu ar gydraddoldeb, a all greu newid diwylliannol hirdymor sy'n symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth. Cafwyd galwadau, yn bennaf gan "A yw Cymru'n Decach?" a phwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol i adolygu a chryfhau'r PSED yng Nghymru.

Mae 'A yw Cymru'n Decach?' yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut gellid diwygio dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus i hoelio sylw cyrff cyhoeddus ar weithredu i roi sylw i'r heriau allweddol yn A yw Cymru'n Decach?.

I leihau anghydraddoldeb yng ngweithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru a'r holl gyrff cyhoeddus rhestredig eraill ddefnyddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i:

- ganfod a gweithredu i roi sylw i wahaniaethau mewn cyflogau oherwydd rhyw, ethnigrwydd ac anabledd, gwahanu galwedigaethol a bylchau mewn cyflogaeth, a chynyddu amrywiaeth yn eu gweithlu, a
- sicrhau bod y cyflogwyr hynny sy'n gweithio dan gontract i'r sector cyhoeddus yn rhoi sylw i wahaniaethau mewn cyflogau, gwahanu galwedigaethol a bylchau mewn cyflogaeth ac yn dangos cydraddoldeb mewn arferion cyflogaeth, gan gynnwys defnyddio'r Cyflog Byw Cenedlaethol fel y sylfaen cyflog ac yn sicrhau bod contractau dim oriau a ffurfiau eraill ar gyflogaeth ansicr yn cael eu defnyddio'n briodol ac nad ydynt yn erydu hawliau gweithwyr i amodau gwaith cyfiawn a ffafriol.

Mae Llywodraeth Cymru yn myfyrio ar sut gellid cyflawni hyn.

Mae Adroddiad Cam 1 yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol hefyd wedi dylanwadu ar y cyfeiriad y byddwn yn ei gymryd i gydymffurfio'n fwy cadarn â'r PSED. Rhoi sylw i'r bylchau mewn cyflogau a chyflogaeth a wna'r blaenoriaethau cychwynnol. Byddwn yn cymryd camau i gryfhau'r Canllawiau a'r Rheoliadau o safbwynt ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol cyfatebol yng Nghymru, i wella'r trefniadau monitro a sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sector cyhoeddus Cymru fel cyfangorff ar gael yn hawdd.

## Cam Gweithredu 3: Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol – ar drywydd cynnydd pellach

Mae Cam 2 o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn pwyso a mesur sut gellir rhoi i'r rhywiau 'y lle amlycaf wrth wneud pob penderfyniad' fel yr ymrwymodd Prif Weinidog Cymru i'w wneud ym mis Mawrth 2018. Mae'r adroddiad ar Gam 2, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2019, yn darparu gweledigaeth a thrywydd clir ar gyfer cael cydraddoldeb rhywiol yng

Nghymru. Drwy weithio gyda'i gilydd, gall Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru arwain y ffordd a bod yn esiampl arferion da o ran cydraddoldeb rhywiol er mwyn sicrhau bod y pethau iawn yn cael eu gwneud i gyflawni addewid Prif Weinidog Cymru.

## Cam Gweithredu 4: Trechu anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol

Mae'r rhyngberthynas rhwng anghydraddoldeb, trechu tlodi a chyflawni lles yn glir. Cafwyd galwadau cynyddol i Lywodraeth Cymru ddeddfu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, fel y nodir yn Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan fod y pwerau deddfwriaethol i wneud hynny bellach wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru dan Ddeddf Cymru 2017. Mae'r ddyletswydd wedi cael ei rhoi ar waith yn yr Alban yn 2018 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi rhoi strategaethau ar waith i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol, a nifer fach ohonynt wedi penderfynu trin y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel petai mewn grym.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn mynnu bod cyrff cyhoeddus penodedig, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar eu blaenoriaethau a gosod amcanion, yn ystyried sut gall eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae yna nifer o weithgareddau ategol sy'n ofynnol i sicrhau bod gweithredu'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn effeithiol i Gymru. Un o'r prif ystyriaethau yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yng Nghymru, dyma'r offeryn cyfredol, allweddol ym maes rhoi sylw i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, yn enwedig y nod llesiant 'Cymru sy'n fwy cyfartal'. Mae Deddf 2015 yn darparu ar gyfer hyn fel cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir na'u hamgylchiadau, gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol dan Ran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn cwmpasu prosiect ymchwil i effaith nifer o opsiynau, gan gynnwys dilyn esiampl yr Alban. Bwriedir i'r gwaith cwmpasu nodi sut y byddai ein rhwymedigaethau a'n dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol presennol dan Ddeddf 2015 yn cyd-fynd â chyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.

## Cam Gweithredu 5: Gweithio'n agosach ar amcanion cydraddoldeb a'u cyflawni

Mae 'A yw Cymru'n Decach?' yn ychwanegu at ein sylfaen dystiolaeth ynglŷn â sefyllfa cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru a bydd yn cyfrannu llawer iawn at waith Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf, yn benodol bydd yn llywio'r gwaith o lunio ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod o 2020 i 2024. Bydd cysoni ein Hamcanion Cydraddoldeb â'r heriau a welodd yr EHRC yn sicrhau ein bod yn mynd ati i drechu anghydraddoldeb yng Nghymru â blaenoriaethau a thargedau penodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd o ddifrif ei hymrwymiad i gydweithio'n agos â'n partneriaid cyflenwi i wella cydraddoldeb a lles Cymru a'i phobl. Mae cydweithio yn elfen hanfodol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy neu'r pum ffordd o weithio fel y nodir yn Neddf 2015. Byddwn yn pwyso a mesur cyfleoedd i ddatblygu cyd Amcanion

Cydraddoldeb â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i gryfhau dull cyfannol, cyson ar draws Cymru o fynd i'r afael â'r heriau a welodd yr EHRC.

## Cam Gweithredu 6: Ymgysylltu cynyddol

Er mwyn bodloni'r heriau a nodir yn 'A yw Cymru'n Decach? bydd angen i sector cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector gydweithredu rhagor er mwyn cyflawni'r canlyniadau sy'n gwella cydraddoldeb yng Nghymru a mynd i'r afael â'r lefelau tlodi cynyddol.

Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigwyr cydraddoldeb yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae arbenigedd allanol hefyd yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu gofynion yn y PSED drwy ddarparu ymchwil, tystiolaeth, craffu a her.

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru a Rhwydwaith Cyfnewid Cydraddoldeb yr EHRC yn darparu modelau cydweithio cadarnhaol y gellir eu hefelychu er mwyn galluogi rhwydweithiau cydraddoldeb sector-benodol a thraws-sector i rannu adnoddau, astudiaethau achos a dysgu.

# Casgliadau

Mae Cymru'n dal i wynebu ansicrwydd oherwydd pwysau economaidd ac ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, yn benodol o ran cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae effeithiau diwygiadau lles a threth Llywodraeth y DU yn dal i gael effaith enfawr ar Gymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn dal yn bryderus iawn am yr effaith y mae hyn eisoes wedi ei chael ar gymdeithas Cymru.

Mae Adroddiad Gweinidogion Cymru yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru, tra bod adroddiad monitro PSED yr EHRC yn nodi lle mae angen inni wneud rhagor. Rhaid i sector cyhoeddus Cymru ddal i weithio ar y cyd i roi sylw effeithiol i anghydraddoldeb ac anfantais sy'n effeithio ar yr unigolion a'r cymunedau mwyaf bregus a mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r gwaith cynllunio wedi dechrau mewn llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddatblygu amcanion cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod 2020 i 2024. Dyma ein cyfle i weithio gyda'n gilydd yn agosach i ddatblygu cyd amcanion, gan ddefnyddio'r heriau a nodir yn yr adroddiad "A yw Cymru'n Decach?" 2018 fel man cychwyn.

# Atodiad 1 – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020: Cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn disgrifio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb. Mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn 2017/18 yn erbyn y camau yn y Cynllun

## Amcanion Cydraddoldeb 2016 – 2020

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb yn cryfhau ein hymdrechion i gyflawni tri gofyniad y ddyletswydd gyffredinol ac i'n helpu i weithio tuag at Gymru fwy cyfartal. Maent yn disgrifio ein hymrwymiad i chwalu'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ac sy'n mygu dyheadau. Maent yn ymdrechu i roi sylw i'r anghydraddoldebau hirhoedlog, sefydledig ac sy'n aml yn pontio'r cenedlaethau i rai â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cyhoeddwyd ein wyth Amcan Cydraddoldeb ym mis Mawrth 2016 yn dilyn ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid ledled Cymru. Roedd yr adborth a gawsom o blaid cadw hanfod yr amcanion cyntaf a gyhoeddwyd gennym yn 2012, ond hefyd cryfhau'r cysylltiad â mynd i'r afael â thlodi, ac ymestyn y cwmpas i gynnwys ein gwaith ar gynhwysiant a chydlyniant cymunedol.

Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020 yw:

### Amcan 1: Dylunio a chyflenwi

Rhoi anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchodedig yn ganolog wrth ddylunio a chyflenwi'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth. Yn benodol, sicrhau cymorth a chwalu rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol ac i gael llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

### Amcan 2: Cyngor ac eiriolaeth

Sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch i alluogi pobl â nodweddion gwarchodedig i ddeall a gweithredu eu hawliau ac i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

### Amcan 3: Cyflogaeth a sgiliau

Canfod a lleihau achosion yr anghydraddoldebau cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhywedd, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

### Amcan 4: Aflonyddu a cham-drin

Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) drais yn erbyn menywod, troseddau casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

### Amcan 5: Amrywiaeth a phenodiadau cyhoeddus

Creu cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus drwy ganfod a rhoi sylw i'r

rhwystrau sy'n atal pobl o gefndiroedd amrywiol rhag ymgysylltu a chyfranogi.

### Amcan 6: Cydlyniant cymunedol

Cryfhau cydlyniant cymunedol drwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch at ein gilydd a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.

### Amcan 7: Tlodi ac anghydraddoldeb

Lleihau tlodi, lliniaru effaith tlodi a gwella amodau byw i'r grwpiau hynny sydd yn y perygl mwyaf o fyw mewn aelwydydd incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni unigol, rhai grwpiau lleiafrifol ethnig, a theuluoedd â phlant anabl.

### Amcan 8: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr

Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

## Dangosyddion Cydraddoldeb

Rydym wedi cymryd ein dangosyddion lefel uchel o *Llesiant Cymru 2017/18*. Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd rydym yn ei wneud fel cenedl yn erbyn y saith nod llesiant drwy gyfeirio at 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nod llesiant o Gymru fwy cyfartal a'n huchelgais i greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir a'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). Mae'r data'n dangos er bod peth cynnydd wedi'i wneud; er enghraifft, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n cau, mae llawer mwy i'w wneud o hyd i gyflawni'r nod hwn.

Mae *Adroddiad Llesiant Cymru 2017/18* i'w weld ar ei gyfanrwydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Crynodeb o’r cynnydd sydd wedi’i wneud i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb 2017/18

Yn yr adran hon cewch ragor o wybodaeth am y gweithgarwch canlynol:


**36** Blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr

**36** Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ofalwyr

**36** Ansawdd gofal i bobl hŷn mewn cartrefi preswyl

**37** Mudiad cyfartal at wasanaethau iechyd meddwl

**37** Addasiadau i dai

**38** Rhaglen Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**38** Fframwaith Gweithredu ar gyfer Cymru: Awdioleg 2017-2020

**39** Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor am les Cymdeithasol

**39** Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (Cymru)

**40** Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol

**40** Model rheoliadol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth

**40** Gwybodaeth a chyngor i hybu llesiant meddyliol

**41** Cynllun Cyflogadwyedd

**41** Menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)

**42** Anabledd a chyflogaeth

**42** Ehangu mynediad at brentisiaethau

**43** Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**44** Troseddau Casineb: Mynd i’r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb, Fframwaith Gweithredu

**44** Canllaw gwrth-fwlio – Parchu Eraill

**45** Penodiadau cyhoeddus – data amrywiaeth

**45** Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

**46** Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**47** Cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

**47** Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymunedol

**48** Rhaglen Cymorth yn y Gwaith

**49** Tasglu’r Cymoedd

**49** Cartrefi fforddiadwy

**50** Y Gronfa Gofal Integredig

**50** Y Grant Datblygu Disgyblion

**51** Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru

## Amcan 1: Dylunio a chyflenwi gwasanaethau

Rhoi anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchodedig yn ganolog wrth ddylunio a chyflenwi'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth. Yn benodol, sicrhau cymorth a chwalu rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol ac i gael llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol ym mywydau pobl sy'n byw yng Nghymru a dylent bob amser adlewyrchu anghenion y cyhoedd. Ein dyhead yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i anghenion cwsmeriaid, a bod polisi cyhoeddus yn adlewyrchu barn a disgwyliadau pob defnyddiwr gwasanaeth yng Nghymru.

Mae ymgysylltu agored a hygyrch â'n dinasyddion yn hanfodol os ydym am ddeall a chwalu'r rhwystrau a all atal pobl â nodweddion gwarchodedig rhag defnyddio gwasanaethau.

Mae cael a dadansoddi gwybodaeth ynglŷn â phwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau cyhoeddus yn dangos lle mae rhwystrau'n bodoli a lle mae angen rhagor o waith i sicrhau bod anghenion pob defnyddiwr yn cael eu cynnwys wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

### Camau a gymerwyd

Yn ystod 2017/18 penderfynwyd rhoi blaenoriaeth i dair **blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr**.
Y rhain yw:

- Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – Rhaid i bob gofalwr gael seibiant rhesymol o'u rôl fel gofalwyr i'w galluogi i gadw'u gallu i ofalu, ac i gael bywyd heblaw gofalu.
- Canfod a chydnabod gofalwyr – Yr hyn sy'n hanfodol i lwyddiant cyflawni canlyniadau gwell i ofalwyr yw'r angen i wella cydnabyddiaeth i ofalwyr o'u rôl a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth angenrheidiol.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth – mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael gwybodaeth a chyngor priodol pan a lle mae ei angen arnynt.

  Datblygwyd y blaenoriaethau hyn yn dilyn ymgysylltu â gofalwyr drwy'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

Ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr yn 2017, cyhoeddodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol y byddai **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr** yn cael ei sefydlu yn 2018/19 i gynghori ar ac i helpu i weithredu'r blaenoriaethau cenedlaethol ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi datblygu rheoliadau newydd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i roi sicrwydd ychwanegol ynglŷn ag **ansawdd gofal pobl hŷn mewn cartrefi preswyl**. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r rheoliadau, bu AGC yn ymgynghori'n eang â'r sector, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn ystod haf 2017, a chafwyd dros 100 o ymatebion. Gwnaethpwyd nifer o newidiadau positif i'r rheoliadau o ganlyniad i'r adborth. Fel rhan o ddatblygiad y rheoliadau, cafodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd ei gynnalt.

Cafodd y rheoliadau eu datblygu gyda golwg ar ganlyniadau i bobl ac roeddent, o ganlyniad, yn seiliedig ar y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen cymorth. Mae'r fframwaith hwn,

a grëwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn seiliedig ar y syniad bod gan bawb – hen ac ifanc – hawl i gael llais fel dinesydd ac i gael rheolaeth wirioneddol dros eu bywydau pob dydd.

Mae AGC wedi cyflwyno eu dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol o ddatblygu eu fframweithiau arolygu ar gyfer gwasanaethau rheoledig ar gyfer gofal a gofal plant yn eu cyhoeddiad *Hawliau Dynol: Ymrwymiad AGC i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth*. Mae'r fframweithiau'n cael eu hategu gan ganllaw i arolygwyr AGC, sy'n rhoi pwyslais ychwanegol ar berthnasedd a phwysigrwydd hawliau dynol yn eu gwaith.

Mae nifer o weithgareddau a chynlluniau wedi'u cyflwyno i wella **mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd meddwl** drwy weithredu'r cynllun cyflawni *cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* (2016-2019):

- Rydym wedi gweithio â'n partneriaid i ddiweddaru canllaw gweithredu polisi ar iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Roedd Pecyn Cymorth Cymhwysedd Diwylliannol cenedlaethol (a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Diverse Cymru yn 2016) ar gael i weithwyr rheng flaen. Mae'r pecyn yn helpu staff i ryngweithio'n well â chleientiaid â salwch meddwl sy'n dod o wahanol ddiwylliannau, i'w galluogi i ddarparu gofal sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac sy'n rhoi pwyslais ar yr unigolyn.
- Drwy gyfrwng y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, mae cyfeiriadur ymarfer da, sy'n cynnwys enghreifftiau ar gyfer plant â nodweddion gwarchodedig, wedi cael ei ddatblygu. Cafodd hwn ei ddosbarthu ledled Cymru i helpu gwasanaethau lleol.

Rydym wedi cydnabod bod angen gwybodaeth ychwanegol i wella gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl, Mae cynllun cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* yn cynnwys camau i weithredu set ddata craidd iechyd meddwl cenedlaethol sy'n cofnodi canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Rydym wedi cychwyn ar ymgynghoriad manwl ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr a phobl eraill â phrofiad perthnasol, ynglŷn â pha wybodaeth sydd ei hangen i lywio datblygiadau mewn gwasanaethau, i wella ansawdd gofal a helpu i sicrhau canlyniadau positif i unigolion. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig.

Mae GALLUOGI – cymorth i fyw'n annibynnol yn system wedi'i symleiddio sy'n dwyn ynghyd yr holl ddarpariaethau presennol ar gyfer **addasiadau tai**, beth bynnag fo'r ddeiliadaeth; er enghraifft, grantiau cyfleusterau anabl a grantiau addasiadau ffisegol. Mae'n cynnwys tair lefel gyffredinol o gymorth sy'n seiliedig ar anghenion pobl, gan gynnig mwy o hyblygrwydd a llai o fiwrocratiaeth.

Tua diwedd 2017/18, cafodd Grŵp Llywio ENABLE (sy'n cynnwys partneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am ddarparu cymhorthion ac addasiadau yng Nghymru) ei ailgynnull i gynghori Llywodraeth Cymru ar sut i wneud yn siŵr bod y system sy'n darparu addasiadau'n trin pawb yn gyfartal ac yn rhoi pwyslais ar y dinesydd.

Cynhaliwyd ymarferiad casglu data i wella sut yr ydym yn monitro cofnodion ar ddarparu cymhorthion ac addasiadau yng Nghymru fel rhan o'r cynllun GALLUOGI. Bydd y data'n ein helpu i ganfod unrhyw fylchau yn ein data cydraddoldeb, a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o bennu safonau gwasanaeth yn y dyfodol.

Yn ystod 2017/18 cynhaliodd y **Rhaglen Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** y gweithgarwch canlynol:

- Craffwyd ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac a basiwyd yn unfrydol yn ddiweddarach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ym mis Rhagfyr 2017. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd sut y byddai'r Ddeddf yn cael ei gweithredu'n dilyn ymgynghoriad.
- Rydym wedi ariannu prosiectau arloesol ym mhedwar rhanbarth Cymru ac rydym yn myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd yn eu sgil i ffurfio ein hymagwedd tuag at drawsnewid. Rydym hefyd yn defnyddio cyllid grant trawsnewid ADY i gynorthwyo ein partneriaid cyflawni (gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd lleol, y Tribiwnlys ac Estyn) i baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd.
- Rydym wedi penodi pum swyddog trawsnewid arweiniol i weithio yn eu rhanbarthau ac yn y sector addysg bellach. Mae'r swyddogion hyn yn rhoi cyngor, cymorth ac yn herio awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflawni eraill i baratoi ar gyfer ac i reoli'r trosglwyddo i'r system AAY newydd. Drwy wneud hynny, maent yn manteisio ar waith y grwpiau arbenigol a sefydlwyd gennym i gynnwys meysydd fel Cydlynwyr ADY, Iechyd, Cynlluniau Datblygu Unigol a Hyfforddiant.
- Fel rhan o'r rhaglen drawsnewid yn gyffredinol, rydym wedi cytuno i ariannu ystod o hyfforddiant, gan gynnwys y gweithlu arbenigol.
- Mae cwmni ymchwil annibynnol wedi cael contract i gynnal asesiad gwaelodlin o'r system bresennol a bydd effaith y diwygiadau ar blant a phobl ifanc ag ADY yn cael ei mesur.

Ym mis Mai 2017, lansiwyd *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Cymru: Awdioleg 2017-2020*, y **fframwaith gofal a chymorth integredig ar gyfer unigolion B/byddar neu sy'n byw â cholled clyw** ym mis Mai 2017, a dechreuwyd ar y gwaith o gysylltu'r holl waith perthnasol ymhlith byrddau iechyd, y trydydd sector ac awdurdodau lleol.

Sefydlwyd bwrdd prosiect i fonitro'r 33 cam weithredu sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith a dywedir fod y cynnydd yn dda hyd yma. Hefyd, cafodd dau grŵp gorchwyl a gorffen eu sefydlu i weithredu ar y camau allweddol sy'n deillio o'r fframwaith, ac eto mae cynnydd da'n cael ei wneud.

# Amcan 2: Cyngor ac Eiriolaeth

Sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch i alluogi pobl â nodweddion gwarchodedig i ddeall a gweithredu eu hawliau ac i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gan wasanaethau cynghori ran bwysig i'w chwarae yn ein hymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi. Gall cyngor priodol ac amserol wneud gwahaniaeth mawr i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan helpu i fagu cydnerthedd mewn pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar sail gwybodaeth a gwella eu llesiant yn sylweddol. Mae pwyslais y camau gweithredu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn ar hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau cynghori a gwella mynediad at wybodaeth a chyngor sydd ar gael eisoes, fel y gall pobl â nodweddion gwarchodedig gael gwybodaeth am eu hawliau a'r help sydd ar gael iddynt.

## Camau a gymerwyd

Mae'r dystiolaeth bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan ddiwygiadau lles y DU yn ddiamheuol ac maent yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Cafodd hyn ei danlinellu yn adroddiadau ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC): *The cumulative impact of tax and welfare reforms* a *The cumulative impact on living standards of public spending changes*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 a Thachwedd 2018 yn y drefn honno.

Yn 2016 cyhoeddwyd ein ***cynllun gweithredu ar gyfer gwybodaeth a chyngor am les cymdeithasol*** cymdeithasol sydd â'r nod o ddatblygu'n strategol y ddarpariaeth o wasanaethau gwybodaeth a chyngor am les cymdeithasol gyda sicrwydd ansawdd ledled Cymru.

Rydym yn gweithio ar y cyd â **Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (Cymru)**, gan gynnwys darparwyr cyngor, cyllidwyr a chomisiynwyr i annog dull amlasiantaethol i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu yn y cynllun.

Yn ystod 2017/18, rhoddwyd blaenoriaeth i'r chwe cham canlynol:

1. Ymwreiddio'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor (IAQF).
2. Cyllid i wasanaethau cynghori i fod yn seiliedig ar anghenion asesedig.
3. Darparwyr cyngor i gyhoeddi gwybodaeth am eu gwasanaethau ar un porth, er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr i ddod o hyd i wasanaethau lleol.
4. Datblygu mesurau canlyniadau ar y cyd ar gyfer darparwyr gwybodaeth a chyngor.
5. Integreiddio ein darpariaeth gwasanaethau cynghori a ariennir.
6. Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (Cymru) i bwyso ar yr holl ddarparwyr gwybodaeth a chyngor i fabwysiadu eu hegwyddorion.

Mae'r camau hyn yn helpu i gryfhau gwasanaethau cynghori ledled Cymru, yn gwella mynediad at gyngor ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig; cyngor a fydd yn eu helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ar sut i liniaru effaith diwygiadau lles. Mae *Ail Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar Wybodaeth a Chyngor* Chyngor y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys disgrifiad manwl o'n cynnydd yn erbyn y cynllun a'r hyn a wnaed rhwng 2017 a 2018 i helpu pobl i gael gafael ar wybodaeth lles cymdeithasol o safon uchel.

Roedd ***Strategaeth Cynhwysiant Ariannol***, Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd fis Mawrth 2016, yn disgrifio ein gweledigaeth y byddai gan bawb sy'n byw yng Nghymru ddefnydd o wasanaethau ariannol priodol a fforddiadwy, eu bod yn cael gwybodaeth a chyngor gyda sicrwydd ansawdd a bod ganddynt y gallu a'r cymhelliad ariannol i elwa ar y gwasanaethau ariannol sydd ar gael iddynt. Mae ***Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol*** Llywodraeth Cymru yn disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio â sefydliadau partner – yng Nghymru ac ar lefel y DU – i gyflawni'r 22 ymrwymiad a geir yn y strategaeth.

Cyhoeddwyd yr *Adroddiad Cynnydd a Rhagolwg Cynhwysiant Ariannol* ym mis Rhagfyr 2018 ac mae'n crynhoi'r gwaith pwysig sydd wedi'i wneud yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ers cyhoeddi'r *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r cynllun cyflawni*. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o beth o'r prif weithgaredd sy'n digwydd ledled Cymru, ac mae'r rhagolwg yn edrych ar brif heriau'r deuddeng mis nesaf. Mae rhai o'r prif ddatblygiadau'n cynnwys:

- Sefydlwyd **Grŵp Credyd Fforddiadwy Cymru**. Bydd yn edrych ar opsiynau heblaw credyd costus a bydd yn rhoi prawf ar newidiadau'n lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot gyda'r bwriad o ddatblygu modelau y gellir eu cyflwyno ledled Cymru.
- Er mwyn codi ymwybyddiaeth o **Undebau Credyd** fel darparwyr credyd fforddiadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi undebau credyd, gan ddarparu cyllid ers mis Ebrill 2017 ar gyfer ymgyrch farchnata, hyrwyddo undebau credyd drwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan bwrpasol.
- Mae'r **Gronfa Cymorth Dewisol** yn cynnig cyngor brys lle mae angen wedi'i ganfod i ddiogelu iechyd a llesiant. Gwneir taliadau i bobl heb fodd arall i dalu eu costau byw ar y pryd. Ers sefydlu'r gronfa yn 2013/14, mae wedi gwneud dros 198,500 o ddyfarniadau, gyda dros £42 miliwn wedi'i dalu mewn grantiau i helpu'n pobl fwyaf agored i niwed.
- Gwefan *Dewis Cymru* yw ein **cyfeiriadur gwasanaethau gwybodaeth a chyngor**. Ar hyn o bryd mae dros 140 o adnoddau wedi'u cofrestru ar y wefan. Mae'r adnodd, sy'n cofnodi'n fanwl y cyflenwad o wasanaethau gwybodaeth a chyngor, yn hanfodol i hybu sector cynghori mwy integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddylunio'r **model rheoliadol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth** a fydd yn sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael gwasanaethau eiriolaeth o ansawdd uchel. Bydd y rheoliadau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yn dod i rym ym mis Ebrill 2019. Bydd y model yn golygu y gall barn a dymuniadau pobl â nodweddion gwarchodedig gael eu hystyried o ddifrif pan fydd penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau'n cael eu gwneud. Mae AGC hefyd yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid, ac mae hynny'n cynnwys trafodaethau yn ei Fwrdd Cynghori Cenedlaethol. Bydd y fframwaith arolygu diwygiedig ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith erbyn 31 Mawrth 2020.

Yn sgil gweithredu *cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* (2016-2019), rydym wedi ymrwymo i alluogi pobl Cymru i gael mynediad at **wybodaeth a chyngor priodol i hybu llesiant meddyliol** ac i'w helpu i ddeall ac i reoli eu cyflyrau.

Mae ardal pob Bwrdd Partneriaeth Lleol wedi dweud bod darparwyr yn cynnig ystod o gymorth ar lefel 'Haen 0' – hynny yw, i bobl sydd naill ai'n profi straen o ddydd i ddydd

neu anawsterau iechyd meddwl ysgafn i ganolog. Mae enghreifftiau'n cynnwys: dosbarthiadau addysgol ar reoli straen ac ymwybyddiaeth ofalgar, sesiynau â chlinigydd i drafod strategaethau ymdopi ar gyfer gorbryder neu iselder, cymorth i bobl sydd wedi cael profedigaeth, cyngor ar arferion cysgu iach, a chynlluniau yn y gweithle i hybu llesiant.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymryd camau i wella mynediad at gynlluniau llesiant, drwy ddau brosiect pwysig yn ystod cyfnod yr adroddiad. Rydym wedi rhoi cyllid i Fwrdd Iechyd Powys i gyflwyno Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar-lein *SilverCloud* ledled Cymru'n dilyn prosiect peilot llwyddiannus. Bydd hyn yn galluogi pobl 16+ oed i gael cymorth ar-lein ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Bydd y prosiect yn cael ei werthuso i asesu ei effaith a'i effeithiolrwydd.

Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaeth Ddarllen y DU i lansio rhaglen Presgripsiwn Llyfrau newydd. Nod y cynllun yw helpu pobl i gael gwybodaeth, arweiniad ac awgrymiadau ar ffyrdd o hunan reoli eu cyflyrau a bydd ar gael heb orfod cysylltu â gwasanaethau iechyd ffurfiol.

## Amcan 3: Cyflogaeth a sgiliau

Canfod a lleihau achosion yr anghydraddoldebau cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhywedd, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

Mae'r amcan hwn yn hanfodol i nodau'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i drechu tlodi a chynyddu cyflogadwyedd. Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi sylw i'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu pobl sy'n economaidd anweithgar, yn ogystal â'r rhai sydd mewn gwaith eisoes i'w helpu i gyflawni, cynnal a mynd ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy.

### Camau a gymerwyd

Ym mis Mawrth 2018, cyflwynwyd ein gweledigaeth i wneud Cymru'n economi cyflogaeth lawn, uwch dechnoleg a chyflogau uchel. Roedd ein ***Cynllun Cyflogadwyedd*** Cyflogadwyedd yn cyflwyno strategaeth uchelgeisiol i greu gweithlu sydd wedi'i hyfforddi i lefel uchel ac sy'n gynhwysol, a all ymateb yn effeithiol i anghenion sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol. Elfen ganolog o'r uchelgais hon yw ein hymrwymiad i helpu unigolion – beth bynnag fo'u gallu, eu cefndir, rhyw, neu ethnigrwydd – i gyflawni eu potensial drwy gyflogaeth ystyrlon, darparu cymorth o ansawdd uchel sydd wedi'i deilwra'n bwrpasol ar eu cyfer, cynyddu cyfleoedd i gael gwaith cynaliadwy a gwneud rôl cyflogwyr yn flaenllaw i sicrhau dyfodol gweithlu Cymru. Cyhoeddwyd *adroddiad cynnydd y Cynllun Cyflogadwyedd* ym mis Medi 2018 ac a oedd yn disgrifio'r cynnydd rydym wedi'i wneud i gyflawni ei ymrwymiadau ac i dynnu sylw at ddatblygiadau i gyflawni yn y dyfodol. Mae'r adroddiad cynnydd i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae gweithgor newydd wedi'i gynnull o dan fwrdd **Menywod mewn STEM** Llywodraeth Cymru. Bydd y grŵp hwn yn mynd ati i weithredu ar draws y llywodraeth gamau Llywodraeth Cymru o'r adroddiad annibynnol *Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus* ac yn cynorthwyo ein partneriaid i gyflawni pob un o'r 33 argymhelliad i wella addysg, recriwtio,

cadw a denu menywod a merched i bynciau a gyrfaoedd STEM.

Yng Nghymru, rydym wedi cydnabod bod y dystiolaeth ar gydraddoldeb yn dweud wrthym nad oes digon o bobl anabl mewn gwaith. Mae gennym nifer o ymrwymiadau yn ein Cynllun Cyflogadwyedd sydd â'r nod o fynd i'r afael â hyn drwy ffrwd waith Cydraddoldeb. Rydym wedi sefydlu **gweithgor swyddogion ar anabledd a chyflogaeth** i oruchwylio gweithgaredd sy'n ategu ein hymrwymiadau. Yr ymrwymiad cyntaf yw datblygu targed(au) i gynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith yng Nghymru. Byddwn yn gweithio â phartneriaid i roi sylw i'r materion pwysicaf, gan gynnwys agweddau cyflogwyr, dyluniad swyddi ac arferion gweithio.

Dywed y dystiolaeth wrthym hefyd fod angen gwella cyfranogiad pobl anabl mewn prentisiaethau ac nad yw'n gymesur â'r boblogaeth anabl yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i wella ein dull ac rydym yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod prentisiaethau'n ymgysylltu'n well â phobl anabl.

Yn ystod 2017/18 gwnaethpwyd llawer o waith i **ehangu mynediad i'r rhaglen brentisiaethau** ac i annog newid mewn diwylliant. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i ariannu Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a chytunwyd i ymestyn y swydd hon tan 2021.
- Rhyddhawyd cyfres o astudiaethau achos a oedd yn edrych ar brentisiaid o grwpiau gwarchodedig.
- Ariannwyd hyfforddiant pwrpasol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer ein rhwydwaith o ddarparwyr.
- Datblygwyd pecyn cymorth cydraddoldeb ac amrywiaeth pwrpasol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn fuan.
- Comisiynwyd yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gynnal adolygiad o arferion cydraddoldeb ein darparwyr.
- Hwyluswyd cyfres o weithdai rhwng Remploy a'n rhwydwaith o ddarparwyr prentisiaethau i'w galluogi i gydweithio i baru cleientiaid Remploy â phrentisiaethau gwag pan yn bosibl.
- Gwahoddwyd siaradwyr gwadd o sawl sefydliad arbenigol fel Chwarae Teg, Action for Hearing Loss ac ati i gyflwyno sesiynau yng nghyfarfodydd chwarterol yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, er mwyn meithrin cysylltiadau ac uwchsgilio ein rhwydwaith.

O ganlyniad i'r gwaith hwn (a darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn benodol) mae ein darparwyr hyfforddiant yn teimlo eu bod yn fwy hyderus i ddiwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r gwerthusiad o'r hyfforddiant yn dangos bod:

- Mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'u perthnasedd i'w gwaith, fel unigolion ac fel sefydliadau.
- Mwy o hyder a brwdfrydedd tuag at y pwnc ac awydd ac ewyllys i raeadru'r rhain ymhlith cydweithwyr ac i ddysgwyr.
- Mwy o eglurder ynglŷn â chamau penodol y gellir eu cymryd i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith ac yn eu sefydliadau ehangach.

Dengys yr adolygiad a gynhaliwyd gan ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ystod 2017/18 fod llawer o ddarparwyr wedi dechrau treialu ffyrdd newydd o weithio ac, er nad yw'r rhain wedi gwneud gwahaniaeth amlwg eto i nifer y prentisiais â nodweddion gwarchodedig, maent yn cydnabod yr angen i weithredu'n barhaus i wneud cynnydd.

## Amcan 4: Aflonyddu a cham-drin

Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) drais yn erbyn menywod, troseddau casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

Ni ddylai neb orfod byw eu bywydau mewn ofn o drais, cam-drin neu erledigaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud peth cynnydd ar yr amcan hwn drwy gyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a *Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu*.

### Camau a gymerwyd

**Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** (Deddf 2015) yn ymdrech i gael ymateb gwell ar y cyd gan y sector cyhoeddus, arweinyddiaeth gryfach a phwyslais mwy cyson ar y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn yng Nghymru ac i helpu dioddefwyr, ond yn bwysicach na hynny mae'n ymdrech i atal y trais rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Bydd ei gweithredu yn:

- Sicrhau cydweledigaeth strategol, sy'n datblygu strategaethau lleol a chenedlaethol.
- Tynnu sylw at drais yn seiliedig ar rywedd, trais domestig a thrais rhywiol gyda'n harweinyddion ar y lefel uchaf, a rhoi cyfrifoldeb arnynt i annog newidiadau sy'n gwella diogelwch dioddefwyr a'u plant.
- Galluogi penodi Cynghorydd Cenedlaethol i roi arweinyddiaeth proffil uchel a sicrhau atebolrwydd o safon uwch i bawb.

Yn ystod y cyfnod ymgymerwyd â'r gweithgarwch canlynol i weithredu Deddf 2015 yn llwyddiannus:

- Cyflwynodd pob awdurdod perthnasol gynllun pum mlynedd i gydymffurfio â gofynion y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol.
- Comisiynwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn erbyn y cynlluniau.
- Cyhoeddwyd canllaw gennym ar weithredu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. Cyflwynwyd Gofyn a Gweithredu mewn ardaloedd peilot ychwanegol a darparwyd e-ddysgu.
- Cyhoeddwyd *Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru*.
- Comisiynwyd yr Arolygiad Thematig o Addysg Rhyw a Pherthynas (SRE), a oedd hefyd wedi'i gwblhau yn y cyfnod, a chyhoeddodd y Panel Arbenigol ar SRE ei argymhellion.
- Cynhyrchwyd canllawiau ar Strategaethau Lleol ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, a chyhoeddwyd canllawiau comisiynu rhanbarthol statudol drafft fel dogfen ymgynghori.
- Cyhoeddwyd y *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr* drafft fel dogfen ymgynghori.
- Datblygwyd Dogfen Cychwyn Prosiect ar gyfer ffrwd waith Deddf 2015 ar gyfer *Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023*.
- Lansiwyd Dyma Fi, yr ymgyrch i herio stereoteipio ar sail rhywedd.

O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn:

- Mae dros 70,000 o bobl ledled Cymru wedi cael hyfforddiant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- Mae goroeswyr yn cael eu cynrychioli ar grwpiau polisi a chyflawni allweddol.
- Dyma Fi yw un o'r ymgyrchoedd cyfathrebu Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol mwyaf llwyddiannus hyd yma.
- Cawsom dros 30,000 o alwadau i'n Llinell Gymorth Ddi-dâl Byw Heb Ofn.
- Cawsom 780 o alwadau i'r llinell gymorth sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i ddioddefwyr o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig (BME), a arweiniodd at 37 o atgyfeiriadau i lochesi BME.
- Cawsom 526 o alwadau i'r llinell gymorth Dyn ar gyfer dynion. Arweiniodd hyn at 303 o atgyfeiriadau a 148 o gynlluniau diogelwch a chymorth unigol ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer 2016-21*. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch yn debygol o gael ei gyflawni o fewn yr amserlen hon, er y gall cyllidebau tynn olygu na fydd y cynnydd mor gyflym ag y byddai wedi bod fel arall.

Er ein bod yn casglu data am linellau cymorth sy'n cael eu hariannu, ac yn defnyddio'r ystadegau a gynhyrchir gan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, mae natur sensitif Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol yn golygu y gall fod yn anodd iawn i goladu data monitro cywir, yn enwedig lle nad yw dioddefwyr yn dymuno hysbysu am droseddau neu dwyn achos. Gan fod llawer o ddioddefwyr yn dewis bod yn ddienw, mae hyn hefyd yn ei gwneud yn anos i goladu data. Felly, mae'r data ar y camau uchod yn gyfyngedig. Gwyddom fod grwpiau gwarchodedig yn defnyddio gwasanaethau a ariennir, a gwyddom fod gweithwyr proffesiynol rheng flaen wedi cael eu hyfforddi a'u bod yn fwy hyderus y gallant adnabod dioddefwyr posibl Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol ac i wneud atgyfeiriadau priodol. Rydym yn adolygu sut yr ydym yn casglu gwybodaeth am gyflawni gan sefydliadau a ariennir er mwyn sicrhau ein bod yn targedu cymorth yn briodol.

Mae ein ***Troseddau Casineb: Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb, Fframwaith Gweithredu*** yn arwain gwaith aelodau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar Droseddau Casineb (HCCJBC). Roedd camau gweithredu yn 2017/18 yn rhoi pwyslais penodol ar godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb i annog hysbysu, ac ar drafod ffyrdd o fynd i'r afael â throseddau casineb gwrth-Semitiaeth, casineb at fenywod, pobl anabl ac LGBT. Mae cyfarfodydd y HCCJBC wedi canolbwyntio ar y materion hyn yn eu tro, gyda rhanddeiliaid ychwanegol â phrofiad perthnasol yn cael eu gwahodd i ymuno â'r bwrdd ar gyfer pob trafodaeth.

Mae canlyniadau i ddioddefwyr troseddau casineb â nodweddion gwarchodedig yn cael eu monitro drwy'r Ganolfan Genedlaethol Cymorth ac Adrodd Troseddau Casineb. Bu cynnydd yn yr adrodd ym mhob un o'r meysydd nodweddion gwarchodedig. Y farn gyffredinol yw bod hyn yn rhannol o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr achosion o droseddau casineb, ond hefyd am fod pobl yn teimlo'n fwy hyderus i adrodd arnynt. Mae cyfran yr erlyniadau llwyddiannus yn gyson uchel. Bu gostyngiad yn nifer yr erlyniadau sy'n cael eu dwyn gan rai meysydd, ac mae hyn wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr HCCJBC.

Yn ystod y cyfnod adrodd bu ymgysylltu eang â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i'n helpu i benderfynu pa newidiadau a ddylid eu gwneud i'r ***canllawiau gwrth-fwlio – Parchu Eraill***. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys cyfarfodydd un i un, gweithdai rhanbarthol a chynadleddau â chynrychiolwyr o'r gweithlu addysg, yr Heddlu, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb, y Fforwm Cyflawniad Lleiafrifol ac Ethnig, a phlant a phobl ifanc.

Bydd y safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y rhaglen ymgysylltu hon i'w gweld wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf y prosiect i ddiwygio'r canllawiau gwrth-fwlio. Roedd yr adborth a gafwyd yn sgil yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn amlygu nifer o feysydd lle dylid cryfhau'r canllawiau diwygiedig i helpu'r rhai sy'n mynd i'r afael mewn bwlio mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys helpu unigolion sy'n cael eu heffeithio gan fwlio ar sail rhywedd, hil, crefydd, diwylliant, cyfeiriadedd rhywiol ac anghenion dysgu ychwanegol.

Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal ac mae'n rhoi dadansoddiad manwl o sut mae'r gwaith hwn yn hybu'r agenda cydraddoldeb. Bydd yr asesiad o'r effaith yn parhau i gael ei fonitro i ganfod unrhyw effeithiau posibl wrth i'r rhaglen waith fynd rhagddi.

## Amcan 5: Amrywiaeth a phenodiadau cyhoeddus

Creu cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus drwy ganfod a rhoi sylw i'r rhwystrau sy'n atal pobl o gefndiroedd amrywiol rhag ymgysylltu a chyfranogi.

Pan mae pobl o bob math o gefndiroedd yn cael eu cynrychioli ar fyrddau cyhoeddus, mae'n sicrhau mwy o amrywiaeth o ran safbwyntiau a phrosesau penderfynu ar sail gwybodaeth yng Nghymru, yn lleol ac yn genedlaethol.

### Camau a gymerwyd

Mae data amrywiaeth yn awr yn cael ei gyflenwi i Weinidogion sy'n gyfrifol am ymgyrchoedd recriwtio / ail benodi yng nghamau allweddol y broses. Er enghraifft, pan fydd swydd yn cael ei hysbysebu bydd y Gweinidog perthnasol yn cael gwybodaeth am nifer yr ymgeiswyr ac amrywiaeth y rhai sydd wedi ymgeisio. Mae data amrywiaeth hefyd yn cael ei gyflenwi ar gyfer cam y rhestr fer a chyfweld a phan ofynnir i'r Gweinidog ddethol ymgeisydd ar gyfer ei benodi. Yn achos byrddau rheoledig mae'r data hwn yn cael ei gyflenwi hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA) a fydd yn cyhoeddi adroddiad ystadegol yn yr Hydref a bydd yn edrych ar y siwrnai recriwtio.

Cwblhawyd **rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth** Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017, cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Bu'r rhaglen yn helpu 51 o unigolion o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli drwy raglen fentora ac amrywiaeth o sesiynau hyfforddi gyda'r bwriad o'u paratoi i sefyll fel ymgeiswyr yn yr etholiad.

Mae dadansoddiad demograffig o'r mentoreion a fu'n rhan o'r rhaglen fel a ganlyn:

- Menywod = 37
- Pobl ifanc = 20
- BME = 10
- Anabl = 7
- LGBT = 5
- Teithwyr/Sipsiwn = 1

Mae dadansoddiad demograffig o'r mentoreion a fynegodd fwriad i sefyll yn yr etholiad ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen fel a ganlyn:

- Menywod = 16
- Pobl ifanc = 8
- BME = 7
- Anabl = 3
- LGBT = 1

Safodd 16 o unigolion fel ymgeiswyr ym mis Mai 2017 a llwyddodd pedwar i gael eu hethol. Roedd pob un o'r rhai a etholwyd yn fenywod.

Ers yr etholiad, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i ddatblygu manyleb i werthuso'r prosiect fel sail i gynlluniau yn y dyfodol i roi sylw i'r mater hwn. Roedd hyn yn destun ymarferiad tendro yn gynnar yn 2018, a dyfarnwyd y contract i Miller Research UK i gynnal y gwerthusiad ym mis Ebrill 2018. Bydd yr adroddiad gwerthuso'n edrych yn fanylach ar effaith y rhaglen.

## Amcan 6: Cydlyniant cymunedol

Cryfhau cydlyniant cymunedol drwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch at ein gilydd a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.

Mae cyni a diwygiadau lles yn parhau i gael effaith andwyol ar ein cymunedau. Ar adegau o galedi llymach, gall safbwyntiau negyddol a stereoteipiau effeithio'n andwyol ar bobl neu grwpiau penodol. Mae'r stereoteipiau negyddol hyn yn aml yn cael effaith anghymesur ar grwpiau mwy difreintiedig.

### Camau a gymerwyd

Sefydlwyd grŵp traws-lywodraethol gennym i gydlynu'r ***Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr***, sy'n disodli *Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni Teithio at Ddyfodol Gwell*. Mae'r dull hwn wedi sicrhau bod polisïau'n ystyried anghenion Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac roeddem yn gallu canfod a chau unrhyw fylchau.

Ymgynghorwyd ar y cynllun drafft a buom yn ymgysylltu'n eang â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain; yn ogystal ag â phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a buom yn gweithio ar draws y Llywodraeth i ystyried newidiadau a awgrymwyd drwy ddiweddaru a diwygio camau gweithredu fel oedd yn berthnasol. Cafodd y Cynllun terfynol ei gyhoeddi ar 26 Mehefin 2018.

Mae'r cynllun newydd yn ymdrechu i ddatblygu a gwella mynediad at help, cyngor a gwasanaethau i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru. Mae'n ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gwasanaethau a'r tlodi a brofir gan y cymunedau hyn, i hybu cyfle cyfartal a'u helpu i gael gafael ar adnoddau a gwasanaethau prif ffrwd yn haws ac yn fwy hwylus.

Mae'r prif fuddiannau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r cynllun yn adeiladu ar waith sydd wedi'i wneud ers 2011 yn y meysydd llety, iechyd, addysg a chyfranogiad cymunedol. Hefyd, mae'r cynllun yn cyflwyno ymrwymiadau mewn meysydd fel cyflogaeth a hyfforddiant yn ogystal â chodi pontydd o fewn gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Bydd y camau yn y cynllun yn cael eu monitro gan swyddogion ac adroddir yn flynyddol arnynt i Weinidogion.

Mae sawl cam yn y cynllun yn ymwneud â gwella systemau casglu data sy'n gysylltiedig â chyfranogiad a chanlyniadau i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a fydd hefyd yn cael eu monitro. Gan fod y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn rhai bychain, a'u bod yn amharod ar y cyfan i nodi eu hethnigrwydd ar ffurflenni monitro cydraddoldeb, gall fod yn anodd cofnodi data meintiol ar ganlyniadau a brofwyd. Er hynny, mae'r cynllun yn cynnwys cam i roi'r hyder i aelodau'r cymunedau hyn i nodi eu hethnigrwydd ac mae'n cynnwys mwy o gyfleoedd iddynt i wneud hynny (fel gwelliannau i drefniadau casglu data'r GIG, cyfrifiadau addysg a rhaglenni cyflogaeth Llywodraeth Cymru).

Rydym wedi ymgysylltu'n eang â phartneriaid yn y sector cyhoeddus â'r Trydydd Sector i ddatblygu'r ***Cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches***. Cynhaliwyd sawl sesiwn ymgysylltu â Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghymru i ganfod yr hyn sydd ei angen ar y gymuned hon. Buom hefyd yn cwrdd â chydweithwyr mewn adrannau ar draws y llywodraeth i sicrhau bod polisïau'n ystyried anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid ac, os nad ydynt, maent yn cael eu hannog i ddatblygu camau gweithredu a fydd yn cael effaith bositif ar ganlyniadau i'r grŵp hwn.

Mae ein gwaith yn y maes hwn yn ymdrechu i ddatblygu a gwella mynediad at help, cyngor a gwasanaethau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ledled Cymru. Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a'r tlodi a brofir gan y cymunedau hyn, hybu cyfleoedd cyfartal a'u helpu i gael gafael ar adnoddau a gwasanaethau prif ffrwd yn haws a mwy hwylus.

Bydd y prif ganlyniadau'n cynnwys:

- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu manteisio ar y gwasanaethau iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl) sydd eu hangen arnynt ar hyd y 'daith lloches'. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd pan fyddant yn cyrraedd ac yn ystod y camau gwasgaru ac ôl-drawma.
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddechrau integreiddio i'r gymdeithas yng Nghymru o'r diwrnod cyntaf.
- Nid yw ceiswyr lloches yn cael eu hatal rhag manteisio ar gynlluniau Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu helpu i integreiddio.
- Ffoaduriaid newydd yn llawer llai tebygol o gwympo i dlodi difrifol.
- Pob ffoadur a cheisiwr lloches (yn enwedig plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches) yn cael eu diogelu'n briodol ac yn gallu manteisio ar gymorth eiriolwyr.

Rydym wedi gweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu ***Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymunedol*** 2017-2020. Defnyddiwyd y cynllun i hybu cydweithrediad â rhanddeiliaid ac mae hefyd wedi arwain gwaith yr wyth Cydlynydd Cymunedol Rhanbarthol, swyddi sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Pedwar amcan y cynllun newydd yw:

Amcan 1: Gweithio ar lefel strategol i chwalu rhwystrau rhag cynhwysiant ac integreiddio ymhlith grwpiau ar gyrion cymdeithas.

Amcan 2: Gweithio ar lefel leol i chwalu rhwystrau rhag cynhwysiant ac integreiddio ymhlith grwpiau a chymunedau penodol.

Amcan 3: Helpu mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ystod y broses integreiddio.

Amcan 4: Mynd i'r afael â gwahaniaethu, atgasedd, tensiynau ac eithafiaeth.

Yn 2017/18 gwnaethpwyd cynnydd ar:

- Cynlluniau llesiant: Bu Cydlynwyr Cydlyniant Cymunedol a Llywodraeth Cymru'n llwyddiannus wrth weithio â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGCau) i sicrhau bod cydlyniant cymunedol a materion cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau llesiant BGCau.
- Datblygu Rhwydwaith Cynhwysiant Cymunedol / Rhwydwaith Cydraddoldeb a Chynhwysiant: roedd y pwyslais yn 2017/18 ar gael yr wyth cydlynydd a'r saith sefydliad Cydraddoldeb a Chynhwysiant i weithio'n dda â'i gilydd fel bod cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cyflawni'n dda ledled Cymru, a bod pawb yn gallu rhannu dysgu ac arbenigedd. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar annog cydweithrediad a rhwydweithiau.

- Cyfathrebu: buom yn gweithio ag ystod eang o randdeiliaid i sefydlu Rhwydwaith Cyfathrebu Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymru Gyfan, i gael cymaint o sefydliadau â phosibl i ddod at ei gilydd i gyfleu neges syml, gyson i hybu cynhwysiant. Rydym yn gobeithio cael effaith wirioneddol i wrthweithio yn erbyn rhethreg negyddol, ar gyllideb fach iawn.

Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau cynhwysiant cymunedol i grwpiau ar gyrion cymdeithas, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae Dangosyddion Cenedlaethol o gydlyniant cymunedol yn awgrymu bod cydlyniant wedi bod yn gwanhau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, nid oes modd dadgyfuno'r mesurau hyn yn ôl nodweddion gwarchodedig, ac nid oes modd gwybod i ba raddau mae'r dirywiad hwn wedi'i liniaru gan ein gwaith cydlyniant cymunedol. Ni all dangosyddion cydlyniant cymunedol data'r Arolwg Cenedlaethol roi mesurau dibynadwy i ni ar gyfer cydlyniant i rai grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae bylchau hefyd mewn tystiolaeth ar nifer y troseddau casineb a brofir yng Nghymru (yn hytrach na'r nifer sy'n cael eu hysbysu).

## Amcan 7: Tlodi ac anghydraddoldeb

Lleihau tlodi, lliniaru effaith tlodi a gwella amodau byw i'r grwpiau hynny sydd yn y perygl mwyaf o fyw mewn aelwydydd incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni unigol, rhai grwpiau lleiafrifol ethnig, a theuluoedd â phlant anabl.

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl â nodweddion gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, ac mae'r amcan hwn yn rhoi pwyslais penodol ar dlodi ac anghydraddoldeb yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig.

### Camau a gymerwyd

Mae **Cymorth yn y Gwaith** (IWS) yn rhaglen sy'n cael ei hariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a ddaeth i fod yn 2015 ac a ddaeth i ben ym mis Awst 2018. Ei hamcanion oedd mynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd drwy leihau absenoldeb oherwydd salwch a chynyddu cyfraddau presenoldeb yn y gweithle. Roedd yn rhoi sylw i Themâu Trawsbynciol Cyfle Cyfartal, Trechu Tlodi a Chynhwysiant Cymdeithasol a Chynaliadwyedd yr ESF. Roedd yr IWS yn mabwysiadu dull ataliol gyda'r bwriad o leihau nifer y swyddi a oedd yn cael eu colli o ganlyniad i gyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar y gallu i weithio.

Roedd y rhaglen yn cynnig mynediad cyflym at therapïau corfforol a/neu seicolegol gyda phwyslais ar waith i gyflogeion sydd ar, neu sydd mewn perygl o fod ar, absenoldeb salwch tymor hir, gyda chymorth rheolwr achos. Roedd hefyd yn darparu gweithdai ar gyfer meddygon teulu i helpu darparwyr gofal iechyd i roi sylw i broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â gwaith. Roedd elfen arall yn cynnwys gweithdai i reolwyr a chyflogeion Busnesau Bach a Chanolig i helpu i wella iechyd a llesiant y gweithle.

Mae wedi darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol i bron i 3,400 o gyflogeion – ymyriadau therapiwtig yn bennaf i 2,100 o bobl â phroblemau cyhyrysgerbydol a bron i 1,300 o bobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn wedi helpu dros 2,500 i barhau mewn gwaith, 430 arall i ddychwelyd i waith a tua 1,800 o fusnesau bach a chanolig i leihau effaith absenoldeb oherwydd salwch.

Defnyddir dwy ffynhonnell o wybodaeth monitro cydraddoldeb i olrhain effaith y rhaglen – adborth gan gyfranogwyr ac adroddiadau ar ganlyniadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y dull wedi cael effaith bositif ar leihau dyddiau salwch ac wedi hybu cynhyrchiant yn ogystal â rhoi gwerth am arian. Mae adborth gan bobl sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth wedi bod yn galonogol iawn gyda thua 87% o'r cyfranogwyr yn dweud ei fod wedi cael effaith bositif ar eu hiechyd a llesiant. Mae astudiaeth gwerthuso annibynnol o'r gwasanaeth wedi adrodd ar y canlyniad tybiedig ac effaith ehangach y gwasanaeth, ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod 2017/18 bu **Tasglu'r Cymoedd** yn ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o gymunedau, awdurdodau lleol, mudiadau trydydd sector a busnesau ledled y Cymoedd i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer y Cymoedd. Cafodd cynllun lefel uchel ei gyhoeddi fis Gorffennaf 2017 a oedd yn nodi tri phrif faes blaenoriaeth: swyddi o ansawdd uchel a'r sgiliau i'w cyflawni; gwasanaethau cyhoeddus gwell; a fy nghymuned leol. Bu'r tasglu yn ymgynghori ar y cynllun â rhanddeiliaid i sicrhau mai'r blaenoriaethau yn y cynllun oedd y rhai cywir. Canlyniad y broses hon yw *cynllun cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*, a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2018.

Yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu dywedodd cymunedau wrthym y dylai **trafnidiaeth** fod yn brif flaenoriaeth i'r tasglu gan fod trafnidiaeth gyhoeddus na ellir dibynnu arni ac sydd heb ei chydlynu yn y Cymoedd yn rhwystro pobl rhag derbyn swyddi, addysg, hyfforddiant a defnyddio cyfleusterau hamdden. Mae'r tasglu'n gweithio â chydweithwyr trafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru i gynyddu buddiannau prosiectau seilwaith mawr fel y Metro a deuoli'r A465 i helpu'r Cymoedd. Hefyd, mae swyddogion yn datblygu prosiectau peilot llai i sicrhau opsiynau trafnidiaeth cymunedol mwy effeithiol.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, blwyddyn yn ddiweddarach*, sy'n disgrifio'r cynnydd a wnaed yn yr wyth mis cyntaf ers cyflwyno'r cynllun cyflawni. Rydym yn dal i gasglu data i ddangos sut mae ein camau gweithredu yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau'r Cymoedd ond mae tystiolaeth eisoes o newid positif.

Yn 2017/18 gwnaethom gynnydd cychwynnol da tuag at y targed o **20,000 gartrefi fforddiadwy** ac, er mai dyddiau cynnar yw hi o hyd, rydym yn hyderus y gallwn gyrraedd y targed. Rydym yn buddsoddi mwy nag erioed mewn tai yn ystod tymor y llywodraeth hon, ar ôl neilltuo dros £1.7 biliwn mewn 5 mlynedd.

Rydym wedi cyflwyno cynllun Rhentu i Brynu (a chynllun Rhanberchnogaeth i gyd-fynd â hynny) a Rhaglen Tai Arloesol i helpu i gael ffyrdd newydd o sicrhau'r tai sydd eu hangen arnom.

Bydd y ddarpariaeth tai cymdeithasol yn cyfrif am yr elfen fwyaf o'n targed o 20,000 o gartrefi, sy'n helpu'r rhai mwyaf agored i niwed (sydd â niferoedd anghymesur o uchel sy'n debygol fod yn anabl neu'n dod o grwpiau lleiafrifol ethnig penodol).

Rydym yn sicrhau hefyd bod unrhyw ddyraniadau o'r Grant Tai Cymdeithasol yn mynnu bod cartrefi'n cael eu hadeiladu i gydymffurfio â'r Gofynion Ansawdd Dylunio, sy'n golygu eu bod yn cael eu hadeiladu'n unol â safonau gofod ac ansawdd uwch, yn ogystal â bod modd eu haddasu os byddai iechyd neu amgylchiadau'r preswylydd yn newid.

Pan fydd tai'n cael eu hystyried a'u hintegreiddio'n briodol â gofal cymdeithasol gall olygu buddiannau sylweddol i bobl a'r

gwasanaeth iechyd, drwy, er enghraifft, helpu i leihau nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo. Mae'r **Gronfa Gofal Integredig** (ICF), sydd ar hyn o bryd yn £10m y flwyddyn, yn ymdrechu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy integreiddio tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Defnyddir Cyfalaf yr ICF i helpu cynlluniau sy'n cynnig dull cydweithredol ac integredig effeithiol i ardaloedd blaenoriaeth byrddau partneriaeth rhanbarthol, sef pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia; pobl ag anableddau dysgu; hefyd plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch; a gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Rydym am fuddsoddi rhagor yn y gronfa hon i helpu rhanbarthau i fod yn fwy strategol, yn enwedig o ran datrysiadau sy'n seiliedig ar lety ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn credu bod potensial pellach i wella gallu pobl i fyw'n annibynnol ac i wella'r cyfraniad y gall ymyriadau tai ei wneud i wella gwasanaethau a ddarperir a hefyd i leddfu'r pwysau ar y GIG a'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Gall pwyslais ar dai a llety ar lefel fwy strategol a phriodol helpu i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl ac oedi cyn trosglwyddo gofal. Rydym yn ystyried sut y gallwn fuddsoddi mwy yn y maes hwn.

Ein nod yw torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel drwy ddarparu cyllid ychwanegol i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sy'n cael gofal, drwy'r **Grant Datblygu Disgyblion** (PDG).

Yn ystod 2017/18 rydym wedi:

- Dyblu'r PDG Blynyddoedd Cynnar (EYPDG) ar gyfer dysgwyr yn y Cam Sylfaen o £300 i £600;
- Ymestyn y PDG i helpu plant tair oed sy'n derbyn gofal ar yr un gyfradd â dysgwyr eraill sy'n derbyn gofal;
- Ymestyn cyllid i ddysgwyr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol; ac
- Wedi gofyn i gonsortia addysg rhanbarthol gryfhau eu trefniadau rheoli i helpu ysgolion uwchradd i gyrraedd targed uchelgeisiol sef bod o leiaf 60% o PDG yn cael ei fuddsoddi yng nghyfnod allweddol 3 i fynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu fel byddant yn dod i'r amlwg.

Rydym yn parhau i fuddsoddi symiau mwy nag erioed drwy'r Grant Datblygu Disgyblion gyda dros £90m wedi'i fuddsoddi drwy'r PDG yn 2017/18 i helpu gwasanaethau addysg i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng ein dysgwyr difreintiedig a'u cymheiriaid.

Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r PDG gennym fis Rhagfyr 2017, ac mae ar gael ar ein gwefan. Mae rhai o'r prif ganfyddiadau'n cynnwys:

- Mae PDG yn ffynhonnell bwysig o gyllid i ysgolion i'w fuddsoddi mewn dulliau i fynd i'r afael ag anfantais, a bernir ei fod yn ffynhonnell 'amhrisiadwy' o gyllid ar gyfer mathau penodol o weithgaredd i leihau'r bwlch cyrhaeddiad.
- Roedd rhai ysgolion yn teimlo fod y PDG wedi codi proffil anfantais yn sylweddol ac o ran sut y dylai ysgolion helpu dysgwyr difreintiedig.
- Ar y cyfan, mae'r dadansoddiad o effaith yn dangos bod y bwlch rhwng bod yn gymwys i brydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt yn gymwys wedi cau yn ystod y pum mlynedd diwethaf; mae'n cydnabod bod patrwm o lwyddiant yn dod i'r amlwg sy'n lleihau'r 'effaith' o fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar fesurau cynnydd addysgol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

## Amcan 8: Llywodraeth Cymru fel cyflogwr

Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

Mae'r amcan hwn yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn cynnig amgylchedd teg a chynhwysol, lle mae pawb yn cael y cyfle i fod yn hwy eu hunain ac i gyflawni eu potensial.

### Camau a gymerwyd

Mae ein ***Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant***, a gyhoeddwyd fis Ebrill 2017, yn ymdrechu i ddangos sut y byddwn yn cyflawni'r amcan hwn yn ystod y cyfnod 2017-2020. Cafodd ei ddatblygu gyda help aelodau o'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cynnwys Hyrwyddwyr Amrywiaeth, Cadeiryddion Rhwydweithio ac Ochr yr Undebau Llafur (TUS). Mae'r gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu'n cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd Bwrdd Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb. Mae Is-adran Adnoddau Dynol-Gwasanaethau Arbenigol Llywodraeth Cymru yn gweithio ag Ochr yr Undebau Llafur a'n rhwydweithiau amrywiaeth mewnol i gyflawni nodau'r cynllun gweithredu.

Mae *Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol 2017/18* Llywodraeth Cymru yn rhoi trosolwg o gymysgedd amrywiaeth y gweithlu a manylion am y gwaith a wnaed i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy feithrin a chynnal gweithlu cynhwysol drwy'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhaglenni Recriwtio a Lleoliadau Gwaith
- Dysgu a Datblygiad
- Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff.

# Diweddariad ar Gamau Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cafodd y camau gweithredu yr oeddem wedi cytuno i'w cymryd i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb eu cyhoeddi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Rhagfyr 2016. Ers hynny mae llawer o'r camau hynny wedi eu disodli gan weithgaredd mwy cyfredol, mae rhagor o gamau wedi dod i'r amlwg, ac mae rhai camau wedi'u cwblhau. Rhoddir crynodeb o'r newidiadau isod.

## Camau gweithredu diwygiedig

| Cam a gyhoeddwyd yn 2016 | Cam gweithredu diwygiedig | Rheswm |
|---|---|---|
| 1.1. Adlewyrchu'r ddarpariaeth gryfach ar gyfer hawl gofalwyr i gael gofal a chymorth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y Strategaeth ddiwygiedig i Ofalwyr. | Bydd hawliau gofalwyr i gael gofal a chymorth, fel y nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cael ei hybu drwy weithredu'r Blaenoriaethau Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr (cyhoeddwyd gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar 24 Tachwedd 2017) gyda chymorth Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr. | Yn ystod 2017/18, gwnaethpwyd penderfyniad i beidio â pharhau â'r Strategaeth Gofalwyr newydd, ond rhoi blaenoriaeth yn hytrach i dair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr. Rydym wedi diweddaru'r cam gweithredu i adlewyrchu'r newid hwn. |
| 1.2. Gwella ansawdd gofal a chynnwys hawliau i bobl hŷn mewn gofal preswyl. | 1. Gweithredu i "wneud hawliau'n realiti' i bobl hŷn yng Nghymru.<br>2. Gwella ansawdd y gofal i bobl hŷn mewn gofal preswyl. | Mae tystiolaeth gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn dangos bod gwaith i'w wneud i wella sut mae hawliau pobl hŷn yn cael eu gweithredu, ond mae hwn yn ddarn ehangach o waith nag un sy'n ymdrin â gofal preswyl yn unig.<br>Bu hyn yn destun trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Cafodd camau amlinellol eu trafod a gweithredir arnynt i 'wneud hawliau'n realiti' i bobl hŷn. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn ar ôl y cyfnod adrodd, a bydd yn rhan o'n hadroddiad ar gyfer 2018/2019.<br>Byddwn yn rhannu'r cam gweithredu'n ddwy ran i adlewyrchu gwahanol feysydd y gwaith. |

| Cam a gyhoeddwyd yn 2016 | Cam gweithredu diwygiedig | Rheswm |
|---|---|---|
| 2.7. AGGCC (AGC erbyn hyn) i ddatblygu a rhoi ar waith fframwaith i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau eiriolaeth statudol i blant ac oedolion agored i niwed. Bydd y model newydd yn cael ei roi ar waith yn 2018/19 o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. | AGC i ddatblygu a rhoi ar waith fframwaith i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau eiriolaeth statudol i blant ac oedolion agored i niwed.<br><br>Bydd y model newydd yn cael ei roi ar waith ar 31 Mawrth 2020 fel rhan o gam 3 Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. | Mae geiriad y cam gweithredu wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau yn yr amserlenni a hefyd newid yr enw i Arolygiaeth Gofal Cymru. |
| 2.11. Byddwn yn gweithio gyda'r prosiect Gwybodaeth i Bobl i sicrhau bod gwybodaeth gywir am ofal iechyd yn cael ei chyhoeddi mewn amrywiaeth o fformatau i weddu i anghenion pobl. | Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Llywio Gwybodaeth i Chi i sicrhau bod gwybodaeth gywir, gyfoes, o ansawdd uchel am ofal iechyd ar gael yn ddigidol ac a all wedyn cael ei hatgynhyrchu mewn amrywiaeth o fformatau i weddu i anghenion pobl. | Roedd Gwybodaeth i Bobl yn Weithgor tymor byr i alluogi cydweithwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu ar ffyrdd o wella darpariaeth a dosbarthiad gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae rhagor o waith yn cael ei wneud o dan y ffrwd waith Gwybodaeth i Chi o dan raglen gyflawni strategaeth Iechyd a Gofal Gwybodus. |
| 3.3. Sicrhau ymateb ar y cyd i Bapur Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig am leihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl drwy'r Deyrnas Unedig. | Sicrhau ymateb ar y cyd i strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth y DU *Improving Lives: the future of Work, Health and Disability* i sicrhau ei bod yn integreiddio â meysydd cyfrifoldeb datganoledig i leihau'r bwlch cyflogaeth anabledd ledled y DU. | Bydd y cam gweithredu'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu ein pwyslais presennol; ymgysylltu â strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth y DU *Improving Lives the future of Work, Health and Disability*. |
| 4.2. Rhoi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar waith drwy *Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu* gyda golwg ar dri amcan, sef atal, cefnogi dioddefwyr a gwella gwaith amlasiantaeth.<br><br>4.3. Gwella ac esblygu gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau casineb drwy Gyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer Canolfan Genedlaethol Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb. | Gweithio â'r trydydd sector, y sector cyhoeddus ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i gynllunio a chyflawni gwaith i hysbysu troseddau casineb, sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu helpu a'u bod yn fodlon â chanlyniad eu hachos, a bod cyflawnwyr yn wynebu cyfraith. | Byddwn yn uno camau gweithredu 4.2 a 4.3 gan eu bod ill dau'n ymwneud â gweithgaredd yn y fframwaith *Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb*. Bydd y cam gweithredu hefyd yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau'n hytrach nag ar y cynllun ei hun. |

| Cam a gyhoeddwyd yn 2016 | Cam gweithredu diwygiedig | Rheswm |
|---|---|---|
| 4.6. Mae fersiwn ddiweddaraf *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* yn rhoi sylw i fersiwn newydd Gweithio Gyda'n Gilydd, a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae hyn yn cynnwys parhad rhaglen hyfforddi Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a meysydd eraill, a chreu a chyhoeddi modiwlau e-ddysgu a datblygu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel i bob athro yng Nghymru. | Diweddaru canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel i ystyried:<br>• rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith<br>• datblygiad yr NPP<br>• sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) a<br>• cyfres o ganllawiau o dan *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl* o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Mae'r cam gweithredu wedi'i newid i ddiweddaru'r canllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel i ystyried y datblygiadau yn 2018/19. Mae'r cam gweithredu'n awr yn cynnwys datblygu ac ymgorffori'r pecyn cymorth diogelu. |
| 6.1. Datblygu fersiwn ddiwygiedig o *Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chyflawni*. Bydd y cynllun hwn yn hybu cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Yn sgil cyhoeddi'r *Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr*, ein nod yw datblygu, cryfhau a gwella mynediad at yr help, y cyngor a'r gwasanaethau sydd ar gael i Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru. | Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun ar 26 Mehefin 2017, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio â rhanddeiliaid allweddol i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu sydd yn y cynllun. Bydd y cam gweithredu'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod hyn yn awr yn y cam cyflawni. |
| 6.4. Drwy'r *Cynllun Cydlyniant Cymunedol* ein nod fydd cryfhau, prif-ffrydio a chynnal dulliau gweithio lleol a rhanbarthol, er mwyn i gymunedau ledled Cymru fod yn fwy diogel, yn gynhwysol ac yn gydnerth. | Trwy *Cydlyniant Cymunedol; Cynllun Cyflawni Cenedlaethol*, gweithio â phartneriaid yn y trydydd sector, y sector cyhoeddus ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i feithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau mewn cymdeithas, annog cynhwysiant, lleddfu tensiynau cymunedol a herio rhethreg negyddol sy'n achosi rhaniadau. | Mae'r cam gweithredu wedi'i ail-eirio i roi pwyslais ar ganlyniadau'n hytrach nag ar y cynllun ei hun. |
| 6.7. Parhau i ymgysylltu drwy gyfrwng y Fforymau Hil a Ffydd i hwyluso deialog rhwng Llywodraeth Cymru ac ystod o gymunedau am unrhyw fater sy'n effeithio ar fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru. | Hwyluso deialog ddwyffordd reolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau ffydd a lleiafrifoedd ethnig, i drafod y prif faterion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, ac atebion iddynt. | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i ail-eirio o ran ymgysylltu ystyrlon â grwpiau hil a ffydd, yn hytrach na'i gyfyngu i ymgysylltu drwy'r fforymau. Mae hyn i ddangos ein bod yn ymgysylltu drwy fecanweithiau eraill hefyd. |

| Cam a gyhoeddwyd yn 2016 | Cam gweithredu diwygiedig | Rheswm |
|---|---|---|
| 6.8. Cau'r bylchau economaidd, addysg/sgiliau ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf di-fraint a'r ardaloedd mwy llewyrchus drwy dri amcan strategol: Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau Iachach. | Cau'r bylchau economaidd, addysg/sgiliau ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf di-fraint a'r ardaloedd mwy llewyrchus drwy ddatblygu a chynnal pecyn cymorth asesu integredig sy'n cyfuno effeithiau iechyd, cydraddoldeb a hawliau plant i ddangos camau gweithredu trawsbynciol Llywodraeth Cymru. | Roedd yn anodd cael diweddariadau ystyrlon ar gynnydd ar gamau gweithredu trawsbynciol yn y ffordd roeddent wedi'u geirio. Rydym felly wedi aralleirio'r cam gweithredu i fod yn fwy penodol a mesuradwy. Gellir monitro'r cam gweithredu newydd yn fwy effeithiol drwy adolygu'r asesiadau o effaith integredig a gyhoeddwyd gennym. |
| 6.9. Treialu partneriaethau datblygu cymunedol dan arweiniad gwirfoddolwyr ar gyfer pobl hŷn sy'n unig ac wedi'u hynysu (Cymunedau Tosturiol) gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. | Datblygu strategaeth sy'n rhoi sylw i bobl sy'n unig ac wedi'u hynysu yng Nghymru, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig. | Oherwydd diffyg sail dystiolaeth ddibynadwy ar gyfer gwirfoddoli yn y gymuned, mae'r cam gweithredu hwn yn awr wedi'i ddisodli gan ymchwil a gomisiynwyd. |
| 7.4. Helpu dros 4,000 o bobl sydd â phroblemau iechyd i aros mewn gwaith drwy'r rhaglen Cymorth yn y Gwaith newydd. Bydd hyn yn help i fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol drwy atal pobl rhag colli eu gwaith oherwydd problemau iechyd cyffredin, a'r rheini'n aml yn gysylltiedig â phroblemau cyhyrsgerbydol ac iechyd meddwl.<br><br>Sicrhau cymorth ariannol drwy Gronfa Arloesi Gwaith ac Iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cynllun treialu i ddechrau ym mis Mai 2017 i brofi model Cymorth Unigol ar Leoliad i helpu pobl a chyflyrau Iechyd Meddwl sydd wedi bod yn ddi-waith ers llai na 12 mis i gael cyflogaeth gynaliadwy. | Helpu dros 4,000 o bobl sydd â phroblemau iechyd i aros mewn gwaith drwy'r rhaglen Cymorth yn y Gwaith newydd. Bydd hyn yn help i fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol drwy atal pobl rhag colli eu gwaith oherwydd problemau iechyd cyffredin, a'r rheini'n aml yn gysylltiedig â phroblemau cyhyrsgerbydol ac iechyd meddwl.<br><br>Helpu dros 14,000 o bobl 16 oed neu hŷn sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau a/neu sydd â chyflyrau iechyd meddwl (16-24 oed sy'n NEET a 25+ sydd wedi bod yn ddi-waith am y tymor hir neu sy'n economaidd anweithgar) i gael gwaith gan gynnwys hunangyflogaeth, addysg a hyfforddiant erbyn Awst 2020 drwy'r Gwasanaeth Di-waith newydd. | Mae ail ran y cam gweithredu wedi'i aralleirio i adlewyrchu gweithgaredd cyfoes a'r hyn sydd yn yr arfaeth. |

| Cam a gyhoeddwyd yn 2016 | Cam gweithredu diwygiedig | Rheswm |
|---|---|---|
| 7.11. Codi cyrhaeddiad academaidd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig drwy roi strategaethau *Ailysgrifennu'r Dyfodol* ar waith a'r fersiwn ddiwygiedig, (polisi trosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau disgyblion o gefndiroedd difreintiedig) ac estyn y Grant Amddifadedd Disgyblion. | Codi cyrhaeddiad academaidd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig drwy roi'r Grant Datblygu Disgyblion ar waith. | Mae ail ran y cam gweithredu wedi'i aralleirio i adlewyrchu gweithgaredd cyfoes a'r hyn sydd yn yr arfaeth ac enw newydd y grant. |

## Camau Gweithredu Newydd

| Cam Gweithredu newydd | Trefniadau monitro |
|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 3:**<br><br>Adnabod a lleihau ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.<br><br>**Cam Gweithredu**<br><br>1. Defnyddio Buddsoddiadau ESF mewn camau gweithredu i leihau nifer y rhai 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a lleihau nifer y rhai 11-24 oed mewn addysg sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.<br>2. Defnyddio Buddsoddiadau ESF i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio pynciau STEM a lefelau cyrhaeddiad ymhlith rhai 11-18 oed yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. (Bydd y camau gweithredu'n canolbwyntio'n bennaf ar ferched 11-19 oed i helpu i gau'r bwlch cyrhaeddiad mewn pynciau STEM, yn enwedig mewn meysydd heblaw gwyddorau cymdeithasol.<br>3. Defnyddio Buddsoddiadau ESF i helpu unigolion â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu anabledd i barhau mewn gwaith neu i gynyddu cyflogaeth.<br>4. Buddsoddi cyllid ESF i wella sefyllfa menywod yn y gweithlu. | Data monitro i gynnwys:<br><br>Unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 16-24 sydd yn:<br>• Cael cymorth<br>• Ennill cymwysterau<br>• Dychwelyd i addysg/hyfforddiant<br>• Cael gwaith<br><br>Pobl ifanc 11-24 oed sydd yn y perygl mwyaf o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant sy'n:<br>• Cael cymorth<br><br>Pobl ifanc 11-19 mewn llai o berygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant sy'n:<br>• Cael cymorth<br>• Parhau i astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed<br><br>Unigolion mewn gwaith sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu anabledd sy'n:<br>• Cael cymorth<br>• Yn dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod o absenoldeb<br><br>Unigolion sy'n cael eu tangyflogi sydd â rhwystrau rhag cyflogaeth bellach yn cael cymorth.<br><br>Nifer y cyflogeion benywaidd sy'n ennill cymhwyster ac mewn sefyllfa well yn y farchnad lafur.<br><br>Nifer y busnesau bach a chanolig sy'n cael help, gyda 50% yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro. |

| Cam Gweithredu newydd | Trefniadau monitro |
|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 7:**<br>Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, a theuluoedd â phlant anabl.<br>**Cam Gweithredu**<br>1. Defnyddio Buddsoddiad ESF i gynyddu cyflogadwyedd unigolion sy'n economaidd anweithgar ac wedi bod yn ddi-waith am y tymor hir sydd â rhwystrau cymhleth rhag cyflogaeth.<br>2. Defnyddio cyllid ESF i helpu gweithwyr â sgiliau isel, gan gynnwys unigolion BAME ac anabl, i gael sgiliau hanfodol, a chymwysterau technegol neu sy'n benodol i swydd. | Unigolion sy'n economaidd anweithgar ac wedi bod yn ddi-waith am y tymor hir yn cael cymorth i drechu'r rhwystrau canlynol rhag cyflogaeth:<br>• Cyfrifoldebau gofal a gofal plant<br>• Eu bod yn dod o aelwyd ddi-waith<br>• Bod ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio<br>• Eu bod yn dod o grŵp BAME<br>• Sgiliau isel neu ddim sgiliau<br>Unigolion sy'n economaidd anweithgar ac wedi eu tangyflogi am y tymor hir yn ymuno â'r farchnad lafur.<br>Nifer y gweithwyr sydd heb ddim cymwysterau neu 1 neu 2 o gymwysterau'n unig, yn cael hyfforddiant a'r nifer sy'n ennill cymwysterau a'r nifer sy'n BAME neu'n anabl. |

## Camau gweithredu a gwblhawyd

| Cam Gweithredu | Rheswm |
|---|---|
| 1.5. Cyhoeddi *Cod Ymarfer Cymru diwygiedig ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983* sy'n cynnwys cyfeiriad penodol at ddeddfwriaeth gydraddoldeb a darpariaeth gwasanaethau cydradd. | Cwblhawyd y cam gweithredu hwn fis Ebrill 2017. |
| 5.2. Datblygu canllawiau ymarfer da ar redeg bwrdd cynhwysol. | Cwblhawyd y cam gweithredu gyda dwy astudiaeth achos wedi'u cyhoeddi – Cyngor Dylunio Cymru a Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn hyn). |
| 6.3. Cefnogi rhoi'r Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria ar waith drwy Gymru er mwyn cynorthwyo ffoaduriaid agored i niwed. | Nid oes gan Lywodraeth Cymru ran uniongyrchol mewn trafodaethau ar adsefydlu gan fod y rhain yn digwydd rhwng y Swyddfa Gartref, Partneriaeth Mudo Strategol CLlLC ac awdurdodau lleol. Gellir yn awr ddileu'r cam gweithredu hwn, gan gadw mewn cof ein gwaith o dan y *Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches – Cenedl Noddfa*. |
| 7.10. Parhau i wella iechyd a llesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy ganolbwyntio ar leihau nifer yr achosion o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrwy geisio'u hatal lle y gallwn. Byddwn yn ceisio cryfhau cydnerthedd plant a phobl ifanc i osgoi'r newidiadau ymddygiadol a ffisiolegol niweidiol sy'n digwydd yn sgil straen cronig gan helpu i wella'u llesiant a'u ffyniant economaidd pan fyddant yn hŷn. | Mae *Ffyniant i Bawb* yn cynnwys cam gweithredu i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac adroddir yn ei erbyn yn yr adroddiad blynyddol yn ddiweddarach eleni, a thrwy hyn y byddwn yn edrych ar gynnydd ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i gael ei arwain yn fwy priodol. |

| Cam Gweithredu | Rheswm |
|---|---|
| 7.22. Mae trefniadau Oriau Heb eu Gwarantu, a elwir yn aml yn gontractau dim oriau’n gallu rhoi’r hyblygrwydd i unigolion wneud gwaith ychwanegol, cael addysg neu ofalu am ddibynnydd, ond ni ddylai’r hyblygrwydd hwnnw danseilio’r ffordd y caiff gweithiwr ei drin. Bydd Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi Egwyddorion a Chanllawiau Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus am sut i ddefnyddio trefniadau oriau heb eu gwarantu’n briodol mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi’u datganoli yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y rheini a gyflogir i weithio oriau heb eu gwarantu’n cael eu trin yn deg. | Cafodd yr egwyddorion a’r canllawiau eu cyhoeddi fis Rhagfyr 2016. |

# Atodiad 2 – Ein dyletswyddau cyfreithiol

## Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn disodli deddfau gwrth-wahaniaethol blaenorol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ag un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gwarchod pobl rhag gwahaniaethu ar sail:

- oedran;
- anabledd;
- ailbennu rhywedd;
- priodas a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil;
- crefydd neu gred;
- rhyw;
- tueddfryd rhywiol.

Gelwir y categorïau hyn yn 'nodweddion gwarchodedig'.

Mae Adran 149 y Ddeddf yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Wrth gyflawni eu swyddogaethau, rhaid i'r rheini sy'n rhwym wrth y ddyletswydd roi ystyriaeth ddyledus i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad o fath arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno
- meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

I Lywodraeth Cymru mae hyn yn golygu llunio polisïau, cyflenwi gwasanaethau ac o safbwynt ein gweithwyr.

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (Rheoliadau 2011)

Yng Nghymru, mae'r cyrff cyhoeddus a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn rhwym wrth ddyletswyddau penodol sydd yn Rheoliadau 2011. Gelwir Rheoliadau 2011 yn ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru.

Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma: www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made

Mae 'awdurdodau perthnasol yng Nghymru' yn cyfeirio at gyrff cyhoeddus a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19. Lle'r ydym wedi cyfeirio at y 'sector cyhoeddus yng Nghymru' neu debyg, rydym ond yn cyfeirio at y cyrff hynny a restrir yn yr atodlen ac sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru.

Mae'r awdurdodau rhestredig i'w gweld yma: www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/19/part/2

Nod dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru yw galluogi i'r PSED gael ei chyflawni'n well. Gwnânt hynny drwy fynnu, er enghraifft, fod amcanion cydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi gyda'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gofynion ymgysylltu, adroddiadau cynnydd, casglu data a mwy.

## Rheoliad 16: Adroddiadau blynyddol

Daw Rhan 1 o'r adroddiad hwn o dan reoliad 16 o Reoliadau 2011 sy'n darparu ar gyfer dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru, sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn i ddisgrifio sut maent yn cydymffurfio â'r dyletswyddau penodol.

Mae Rhan 1 yn cynnwys nifer o ddatganiadau cynnydd sy'n amlinellu sut rydym yn cydymffurfio â'r dyletswyddau penodol, gan gynnwys y rheini o safbwynt ymgysylltu, tystiolaeth o gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae Rheoliad 16 hefyd yn mynnu bod awdurdodau rhestredig yn darparu datganiad blynyddol o effeithiolrwydd y camau maent wedi'u cymryd i gyflawni eu Hamcanion Cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth ar gael yn Atodiad 1. Pan gaiff y wybodaeth ychwanegol hon ei chyhoeddi, dylid ei hystyried fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb wrth i Lywodraeth Cymru gyflawni ei dyletswydd adrodd statudol gydag Adroddiad Blynydol ar Gydraddoldeb 2017/18.

## Rheoliad 17: Adroddiad Gweinidogion Cymru

Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn cyflawni rheoliad 17 o'r Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru, sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiadau bob pedair blynedd sy'n rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaeth awdurdodau rhestredig i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. Rhaid i adroddiadau Gweinidogion Cymru hefyd gynnwys cynigion ynglŷn â sut bydd awdurdodau rhestredig yn cydlynu eu camau gweithredu er mwyn sicrhau cynnydd pellach i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. Rhaid cyhoeddi adroddiad interim ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi adroddiad llawn.

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae'r ddyletswydd yn adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol i helpu i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor cyfle cyfartal i bawb.

Mae'r ddyletswydd hon yn pwysleisio ymhellach y pwysigrwydd y mae Gweinidogion yn ei roi ar brif ffrydio cydraddoldeb yn eu gwaith a sicrhau ei fod yn cael ystyriaeth ddyledus wrth wneud eu penderfyniadau. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau ein bod yn rhoi pwyslais ar hybu cydraddoldeb, yn ogystal ag yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Rhan 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos sy'n amlinellu sut rydym wedi arfer ein swyddogaethau gan roi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor cyfle cyfartal.